# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 306 - 60c
Medi 2012

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

## Gethin yn serennu




Tudalen 17

## O Gwmann i Gopa'r Wyddfa



Tudalen 20

## Huw â'i Goffor Bach



Tudalen 23

# Cadair i Dylan



Enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 oedd Dylan Iorwerth, Pen-y-nant, Llanwnnen. Ysgrifennodd ddilyniant o gerddi ar y testun 'Llanw'.

# Medal i Heiddwen



Enillwyd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen Llambed dros benwythnos Gŵyl y Banc am dair monolog addas i'w perfformio gan Heiddwen Tomos, Dôl-Mebyd, Pencarreg, Pennaeth Drama yn Ysgol Dyffryn Teifi.



Côr Llefaru Sarn Helen a enillodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012. Hyfforddwyd y Côr gan Mrs Elin Williams, Cwmann.

# Priodas dda i chi gyd...



Steffan Davies, mab i Huw a Nans Davies, Bryndolau, Brynteg a Lowri, merch Robert a Lorraine Evans, Esgair Newydd, Bettws Ifan, Castell Newydd Emlyn. Priododd y ddau ar Awst y 4ydd yng Nghapel Saron, Llangeler a chafwyd y wledd ym Mhlas Pantyrathro, Llansteffan. Aethpwyd i Wlad Thai ar eu mis mêl.



Cerys, merch Pugh a Rhiannon Jones, Gorlan, Llanybydder, a Gareth, mab Ifonwy a Sian Lloyd, Clettwr, Talgarreg, wedi eu priodas yng Nghapel Aberduar, Llanybydder ar Sadwrn y 26ain o Fai, 2012.

Llun: Andy Chittock



Priodwyd Anwen, merch John a June James, Maesteg, Cwmann a Huw, mab Berwin a Helen Jones, Caerfyrddin, ac ŵyr y diweddar Edwin a Beryl Jones, Angorfa, Heol Llanwnen, Llanbedr Pont Steffan yng Nghapel Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan ar ddydd Sadwrn 21 Gorffennaf 2012.

Llun: Tim Jones



Andrew Jones, Cwmgwyn, Pentrebach yn derbyn Aelodaeth Oes er Anrhydedd gan Gyngor Sioe Amaethyddol Cymru yn Sioe Llanelwedd o law y Llywyddion John a Menna Davies.



Barrie Jones, Llygad-y-Ffynnon, Llambed yn derbyn Tystysgrif CARAS (Council for Awards of Royal Agricultural Societies) gan Peter Alexander, cadeirydd Prydain am ei waith yn hyrwyddo Cig Oen Cymru yn y wlad hon a thramor.

Gorsaf Brawf MOT
GAREJ BRONDEIFI
Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth
01570 422305
07974 422 305

LAS Recycling Ltd

Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar 01570 421421
Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Medi | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| Hydref | Delyth Phillips, Llety Clud, Stryd Newydd, Llanbed | 422992 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Phillips | |
| Dylunydd y mis: | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipyddion | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| | Joy Lake, Llambed | |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Glasfan, Drefach | 480490 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilym Clonc ar: Gweplyfr - **www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncyn**
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Testun Siarad**

Yn wir mae tywydd eleni wedi bod yn destun trafod gan bawb. Y glaw wedi amharu ar gymaint o weithgareddau. Tybed a fydd newid yn y tywydd pan ail agorir yr ysgolion? Mae'n rhyfedd meddwl fod ardaloedd dros y ffîn wedi gorfod rhoi gwaharddiad ar ddefnyddio offer i ddyfrhau y tir yn gynnar yn y flwyddyn, ond buan cafwyd rheswm i godi'r gwaharddiadau.

**Ail ddechrau**

Mae tipyn o newid ym myd addysg yn nalgylch Llambed. Bydd yr ysgol gynradd ac uwchradd yn uno o dan enw newydd sef 'Ysgol Bro Pedr'. Dymunwn yn dda i'r uniad, ac hefyd i Dylan Wyn y cyn brifathro ac eraill o'r staff sydd wedi ymddeol, gan ddiolch iddynt am wasanaeth clodwiw. Bydd y brifathrawiaeth yng ngofal cadarn Mrs Dianne Evans, nes apwyntir Pennaeth newydd.

**Ysgolion Cynradd**

Mae'r bwrlwm am uno ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd wedi tawelu, ond nid wedi mynd yn anghof. Fe gwyd ei ben yn fuan eto – mae'n amhosibl plesio pawb, ond cofier mae'r disgyblion sydd yn bwysig.

Tybed a gollwyd cyfle bendigedig pryd y caewyd Ysgol y Dolau. Dyma oedd syniad un o gyn Brifathrawon yr ardal dros ddeg mlynedd yn ôl. Ystafelloedd parod, Neuadd fendigedig, Pwll Nofio a chaeau chwarae a ddefnyddir heddiw gan blant yr ardal, Ffreutur ardderchog a neuadd fwyta fawr. Y broblem fwyaf yn erbyn hyn oedd y Plas ei hun a'r costau o gynnal a chadw adeilad mor fawr.

**Arholiadau**

Mae hwn wedi bod yn destun 'Siprys' ers y dechrau. Ymfalchïwn yn llwyddiant y disgyblion a dymunwn yn dda iddynt am y dyfodol. Mae'n bwysig cofio hefyd fod personoliaeth hyfryd yn adnodd bwysig mewn llwyddiant person. Mae llwyddiant ambell i unigolyn na basiodd yr un arholiad yn profi fod cyfle i bawb sy'n barod i ymdrechu.

**Problem yn y cartref**

Na, nid fi a'r wraig sy'n creu problem ond ceisio agor rhai o'r pacedi sydd wedi cael ei lapio ddwywaith neu dair mewn deunydd amhosib ei rwygo. Roeddwn mewn cartref yn ddiweddar lle'r oedd y mab yn dod â nwyddau i'w fam oedranus. Y gorchwyl cyntaf iddo oedd agor y pecynau a gadael siswrn o fewn cyrraedd fel bod y gwaith wedyn dipyn yn haws.

Cefais i fy nal yn ddiweddar wrth gael cawod un bore mewn gwesty. Dod allan a difyrio nad oedd y sebon oedd yn y gwesty yn dda i ddim, – fi oedd yn dwp. heb weld fod gorchudd plastig tenau o amgylch y sebon. Pam fod angen y plastig – dwn i ddim.

Hwyl am y tro – *CLONCYN*

# Eisteddfod Genedlaethol



Grŵp o Ysgol Ddawns Sally Saunders a ddaeth yn 3ydd yng Nghystdleuaeth Dawnsio Cyfoes.



Lowri Daniel, Llys Barcud, Cellan a enillodd y wobr gyntaf yn Llefaru dros 25 oed.



Aron Dafydd, Gwarffynnon, Silian a enillodd y 3edd wobr am lefaru dan 19 oed.

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**MEDI**

7 Noson i ddathlu llwyddiant y Prifardd Dylan Iorwerth yn y Grannell am 7.00y.h.
8 Dartiau Llambed - Noson gan Tony O'Shea yn y Clwb Rygbi am 8 o'r gloch. Tocynnau £5. o flaen llaw £7 wrth y drws.
7-9 Penwythnos Preswyl Merched y Wawr yn Llambed.
11 Cangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes UK yn cynnal cyfarfod yn Festri Aberduar am 7.30. Siaradwr gwadd Dai Williams o Swyddfa Cymru Caerdydd. Croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni.
12 Cynhelir oedfa Ddiolchgarwch Maesyffynnon, Llangybi am 2.00y.p. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Stephen Morgan. Croeso cynnes i bawb.
18 Cyfarfod Cynghrair Cymuned Ward Llanwenog a'r cyffuniau yng Nghefnhafod, Gorsgoch am 7.30 y.h.
19 Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Ebenezer, Llangybi am 2.00y.p.. Y gennad fydd y Parch John Gwilym Jones. Croeso cynnes i bawb.
21 Noson yng nghwmni Dewi Pws ynghyd â lansio Llyfr o Farddoniaeth o waith y diweddar Jac Davies a George Brockwell yng nghapel Undodaidd Cribyn.
23 Cwrdd Dathlu 50 mlynedd o weinidogaeth Eric Jones yng nghapel Undodaidd Cribyn.
24 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7.00y.h.
29 Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion ym Mart Llanybydder.
29 Sioe Ffasiynnau i godi arian i 'Motor Neurone' yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Llambed am 2.00y.p gyda duet a lan lloft. Tocynnau yn £12 drwy ffonio 422508.
30 Cymanfa'r Cynhaeaf yng Nghapel Brynhafod, Gorsgoch am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb. Elw tuag at y Capel.

**HYDREF**

1 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h. Dr Carwyn Tywyn fydd yn pregethu.
1 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Silian am 7.00y.h.
4 Cwrdd Diolchgarwch Seion Cwrtnewydd am 7.00y.h. Pregethir gan yr Athro Densil Morgan, Llambed.
6 Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p. dan nawdd Urdd y Benywod, Capel-y-Bryn.
9 Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7.00yh. Gwasanaethir gan y Parch Goronwy Wynne, Llanymddyfri. Croeso cynnes i bawb.
10 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca am 7.00y.h. Parchedig Eirian Wyn Lewis, Maenclochog a Mynachlogddu. Croeso cynnes i bawb.
11 Cwrdd Diolchgarwch Caersalem Parcyrhos am 7.00y.h.
12 Eisteddfod Ddwl gyda Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Goffa Felinfach.
13 Cyngerdd Eisteddfod Rhys Thomas James Llambed yn Neuadd Ysgol Bro Pedr [Cynradd] gyda Bois y Castell ac eraill am 7:30.
16 Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h.
17 Cwrdd Diolchgarwch Aberduar, Llanybydder am 2.00y.p. a 7.00y.h.
21 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Groes, Llanwnnen am 3.00y.p. gyda Delyth Morgans Phillips, Llanbedr Pont Steffan. Croeso cynnes i bawb.
27 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach 01558 650292.
31 Bingo yn Festri Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.

**TACHWEDD**

1 a 3 Eisteddfod Sir C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.
17 Eisteddfod C.Ff.I Cymru yn Sir Benfro.
24 Arwerthiant Blynyddol Seion, Cwrtnewydd.

**RHAGFYR**

9 Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg C.Ff.I. Ceredigion.
28 Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc C.Ff.I. Ceredigion.

**IONAWR 2013**

20 Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion.

**CHWEFROR**

11-15 a 18 Cystadleuaeth Drama C.Ff.I. Ceredigion.

# Alltyblaca

**Cwrdd Diolchgarwch**

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch, Capel Alltyblaca, nos Fercher 10 Hydref am 7.00 o'r gloch. Pregethir gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis, Maenclochog a Mynachlogddu.

Croeso cynnes i bawb.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Joan Lewis, Tegfryn a'r teulu ar golli priod, tad, tad-cu a hen tad-cu annwyl ym mherson Ken a fu farw yng Nghartref Allt-y-Mynydd yn ystod mis Awst yn dilyn cyfnod hir o salwch. Bu'r angladd yn gyhoeddus yng Nghapel Aberduar, Llanybydder.

Llongyfarchiadau i bawb yn yr ardal a wnaeth yn dda yn eu haroliadau yn ystod yr haf.

# Cellan

**Capel yr Erw**

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw ar nos Fawrth Hydref y 9fed am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch Goronwy Wynne, Llanymddyfri. Croeso cynnes i bawb.

**Sinema**

Mae sinema Cellan yn dangos ffilmiau poblogaidd a diweddar, ac yn cael ei gynnal yn y Neuadd Fileniwm ar y sgrin 10 troedfedd. Ffilmiau mis Medi:

Medi y 7fed: Mirror Mirror (12);

Medi y 21ain: Salmon Fishing in the Yemen (12).

Croeso i bawb, mae'r ffilmiau yn dechrau am 7:45yh, a drysau yn agor am 7:15yh, cofiwch ddod yn gynnar i sicrhau eich sedd. Mae popcorn, losin, pop ac hufen iâ ar gael i'w fwynhau.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau Lefel A a TGAU a phob lwc i chwi yn y dyfodol.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.


**Alec Page Gof**

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.

*Dewch i drafod eich syniadau.*

Yr Efail, Barley Mow, Llambed.

**01570 423955**

**COMPASS OFFICE SUPPLIES**

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.

☎ 01570 422955

🖷 01570 422232

**T. Emyr Jones Adeiladwr**



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

07867 945174

**CANOLFAN ADDURNO**

**AA A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

*Arbenigedd ar garreg eich drws.*

**3 Stryd y Bont Llanbedr Pont Steffan 01570 423156**

**Cludfwyd Indiaidd NEHAR**



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

**10 Stryd y Bont, Llambed**

**☎ 01570 422893 / 422175**

# Llanfair Clydogau

**Llongyfarchiadau**

Mae'n bleser estyn llongyfarchiadau cynnes iawn i Rebecca Miller, Cysgod y Coed, Heol Llanfair am ennill cwpan y marciau uchaf, ac hambwrdd yr eitem orau yn yr adran goginio agored yn Sioe Amaethyddol Llanbed. Hefyd enillodd y cwpan am y marciau uchaf yn adran yr Ysgol Gyfun , a chwpan y marciau uchaf yn adran y plant. Da iawn ti am ymdrech arbennig. Llongyfarchiadau hefyd i Ceri Cranfield, Bronhaul sydd wedi gwneud mor arbennig o dda yn ei haroliadau TGAU.

**Gwellhad**

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Donald Quan, Blaencwm sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Diwrnod Olympiaid rhwng Llanfair a Chellan**



Yng nghanol tywydd gwael ein haf eleni cawsom ddydd Sadwrn heulog arbennig ar Orffennaf 21ain i gynnal ein diwrnod olympaidd rhwng trigolion a phlant Llanfair a Chellan.Dechreuodd y cyfan gyda rasus cyfnewid dros bont Llanfair i blant ac oedolion. Yna symud i gae Llanfair Fawr lle bu cystadlu brwd rhwng y plant mewn rasus sachau, rasus rhedeg, taflu welis ac yn y blaen.Cyflwynwyd medalau aur, arian ac efydd i'r holl enillwyr gan Aerwen Griffiths, Pengarn gyda'r plant yn dwlu ar eu medalau. Yn ystod yr holl amser yma roedd bowlio yn mynd ymlaen yn y neuadd, lliwio lluniau yn y babell y tu allan, a pŵl yn nhŷ Linda a Laurence. Erbyn hanner dydd roedd pawb yn barod i luniaeth arbennig wedi ei baratoi gan ferched y pentre ac hynny yn rhad i bawb. Ar ôl y bwyd cafwyd ras feicio o sgwâr Llanfair i gofgolofn Cellan a nôl, a ras redeg hir o Lanfair i Gellan. Tua dau o'r gloch symudodd y cyfan lawr i Neuadd Cellan gyda rhagor o ddigwyddiadau chwaraeon, dartiau, bwrdd tenis, sgiliau pêl-rwyd a phêl-droed, taflu welis a beiliau gwair. Yna cafwyd llawer o sbri a gweiddi pan gymerodd y plant a'r oedolion ran mewn tynnu rhaff 'tug o' war'.



I gloi y diwrnod olympaidd cyflwynwyd medalau i enillwyr y chwaraeon yng Nghellan gan y Cynghorwr Odwyn Davies gyda Mrs Ann yn beirniadu a gwobrwyo y lluniau Cafwyd lluniaeth, barbiciw a 'pizzas' a llawer o gymdeithasu tra yn cyfrif y pwyntiau. Ar ôl y cyfrif yr enillwyr oedd pentref Llanfair, ond y gymuned gyfan oedd y gwir enillwyr ar ôl i bawb gael diwrnod unigryw o fwynhad arbennig gan bawb a fu yn bresennol. Dydy digwyddiad fel hyn ddim yn digwydd heb lawer o drefnu a gwaith ymlaen llaw. Mae ein diolch yn fawr i bwyllgorau y ddau bentref ac yn enwedig i Linda Quelch a phwyllgor bach Llanfair. I gloi y cyfan cafwyd dawnsio i fand 'Free Beer' a mwynhad hyd hanner nos. Dyna beth oedd diwrnod llwyddiannus. Diolch i bawb.

# Cornel Chwaraeon



Tîm rownderi Ysgol Carreg Hirfaen a ddaeth yn ail yn nhwrnament rownderi yn ysgol Ffynnonbedr.




Cystadleuaeth Bowlio Agored i Driawdau Cymysg (Tarian Sialens Hathren - Aneurin a Sally Jones) Enillwyr 2012: Ieuan Jones, Rhian Jones, Eddie Thomas



PCSO Ryan Jones, o Orsaf Heddlu Llambed yn cyflwyno siec o £150.00 o Gronfa Eiddo'r Heddlu i Reolwr y tîm Ieuenctid Chris Doughty a'r hyfforddwr, Gavin Simpson, ynghyd â rhai o'r chwaraewyr ifanc.

Cyflwynwyd y siec ar gae hyfforddi newydd Clwb RFC Llambed yng Nghwmann.

**Pencampwr Ceredigion**



Yn ddiweddar enillodd Ron Thomas, Clwb Bowlio Llambed, bencampwriaeth sengl hŷn y sir.

Ar ôl brwydro trwy'r rowndiau cynnar, maeddodd Neil Immings o Gei Newydd yn y gêm derfynol, a bydd yn cynhrychioli Ceredigion ym mhencampwriaeth Cymru yn Llandrindod.

# Silian

**Eisteddfodau**

Llongyfarchiadau i Aron Dafydd, Gwarffynnon ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 pan sicrhaodd y 3ydd safle yn y gystadleuaeth Lefaru 15 – 19 oed.

Hefyd, cafodd Hedydd ac yntau lwyddiant yn Eisteddfod Llambed dros Ŵyl y Banc.

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY
Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548
www.grannell-nursery.co.uk
**Planhigion llysiau, lluosflwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiau, coed ffrwythau a mwy!**
Dydd Llun i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Cymdeithas Alzheimer's | Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

**Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk**

Elusen gofrestredig rhif 296645

**Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services**
Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau / Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001
07796 682448

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON
ARDAL LLANYBYDDER / LLANBEDR PONT STEFFAN

**NOSON BINGO**

Yng Nglwb Rygbi Llanybydder

16 Hydref 2012
8 o'r gloch y.h.

Elw tuag at BHF
Nyrs Calon Ceredigion

# Cwmann

**Ysgol Carreg Hirfaen**

Hoffwn ddiolch i Caryl Davies, cyn ddisgybl yr ysgol am ddod â'r ffagl Olympaidd i'r ysgol i ddangos i'r plant. Roedd y plant a'r staff yn gyffrous iawn i gael yr hanes wrth Caryl a'r cyfle i ddal y ffagl arbennig.

Bu chwech o blant o flwyddyn 6 yr ysgol sef Naiomi, Beci, Cari, Ewan, Kelsie a Mari yn brysur yn ymarfer canu ar gyfer Cyngerdd Proms Sir Gâr yn ddiweddar. Bu'r chwech yn teithio i Gaerfyrddin i ymarfer ac yn perfformio mewn cyngerdd bythgofiadwy yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin ym mis Mehefin. Cafodd Beci a Naiomi y fraint o berfformio offerynnau hefyd, gan berfformio yn hynod o raenus.

Bu'r plant yn cymryd rhan yn Nhwrnament pêl-droed a rownderi ysgolion cylch Llambed yn ddiweddar a gwnaethant fwynhau cystadlu. Gwnaeth y tîm rownderi gyrraedd y rownd derfynol a dod yn ail yn erbyn ysgol gynradd Ffynnonbedr. Gwobrwywyd y disgyblion am eu llwyddiant a chyflwynwyd medal yr un iddynt. Hoffwn ddiolch i ysgol Ffynnonbedr am gynnal y diwrnod.

Cawsom lwyddiant arbennig yn Ffair Haf ysgol Llanwnnen wrth i dîm pêl-droed yr ysgol ddod yn gyntaf. Diolch i Ysgol Llanwnnen am brynhawn hwylus, er gwaetha'r glaw. Aelodau'r tîm oedd Llywelyn, Daniel Ifan, Llion, Ewan a Naiomi Davies.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn mynd i Ysgol Bro Pedr ym mis Medi sef Naiomi Davies, Cari Jones, Mari Lewis, Lisa Lewis, Beci Harrison, Lucy Robertson, Kelsie Flavell, Amy Wanmer, Rupert Geddes, Rhodri Rees, Ewan Bowden a Ryan Wilcox. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr iawn a diolch i chi am eich holl ymroddiad i fywyd ysgol Carreg Hirfaen.

Cafwyd diwrnod Mabolgampau hwylus iawn ar gae Pentref Cwmann ym mis Mehefin efo Tai Cothi a Teifi yn ymgiprys am dlws y Tŷ gorau.

Yn dilyn cystadlu brwd, Teifi ddaeth ar y brig o drwch blewyn ac enillwyr y medalau am y pwyntiau unigol uchaf oedd Mali Jones, Marged Jones, Dafydd Jones, Gwenllian Llwyd Jones, Iestyn Plant a Beci Harrison. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Yn ystod y mis hefyd, mwynhaodd disgyblion Carreg Hirfaen b'nawn braf o fabolgampau Dyffryn Cothi ar gaeau Ysgol Llansawel. Llongyfarchiadau mawr i bawb o Carreg Hirfaen a gymerodd rhan.



Dyma enillwyr mabolgampau Carreg Hirfaen.

Y lleoliad ar gyfer trip disgyblion y Cyfnod Sylfaen eleni oedd 'Manor House Park' yn Nibych y Pysgod. Gwelsom amrywiaeth o anifeiliaid bach a mawr gan gynnwys camelod, wallabies a meerkats. Roeddwn yn ffodus iawn i gael tywydd braf drwy gydol y dydd ac fe fwynhaodd pawb mas draw.

Ar ddydd Mercher, Gorffennaf 18fed aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i Barc Blue Stone, ger Dinbych y Pysgod. Yn gyntaf aethom i'r parc antur a chawsom lawer o hwyl yn chwarae lego, dringo waliau a chwarae ar y llithren. Ar ôl cinio blasus aethom i'r pwll a dyna beth oedd pwll anghygoel. Roedd sawl llithren i gael, rhai yn mynd tu allan a rhai yn dywyll fel ogof. Roedd tonnau yn y pwll bob chwarter awr ac roedd y tonnau yn bwerus iawn. Roedd afon ddioglyd o gwmpas y pwll ac roedd llif y dŵr yn mynd â ni o gwmpas yr afon. Cawsom lawer o hwyl a sbri ond dim cymaint â Mr Evans, Miss Davies, Miss Helen a Miss Julia. Ar ôl diwrnod prysur iawn aeth pawb yn ôl i McDonalds, Caerfyrddin i gael swper blasus iawn cyn cychwyn yn ôl adref. Roedd ein trip ysgol yn ffantastig. Edrychwn ymlaen at gael mynd eto.



Plant blwyddyn 3 gyda Caryl Davies.

Buodd plant Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Phlas Llanerchaeron fel rhan o'u gwaith ar hen gartrefi. Cawsom brofiadau diddorol iawn gan gynnwys golchi dillad efo llaw, chwarae efo hen deganau ac edrych ar arteffactau diddorol. Ar ôl cinio cawsom ein tywys o gwmpas y plas cyn mynd o amgylch yr ardd. Roedd y plant wrth eu boddau yn gweld y moch yn rholio yn y mwd.

Cawsom newyddion ardderchog yn ddiweddar pan ddaeth cynrychiolwyr o'r cwmni Bwcabus i'r ysgol i gyflwyno gwobr i Elen Medi Jones Blwyddyn 1 am liwio llun i hysbysebu'r cwmni. Cafodd docynnau i'r teulu i fynd i'r sinema yng Nghaerfyrddin a phêl rygbi'r Scarlets wedi ei harwyddo gan y chwaraewyr. Da iawn ti.

Mae plant blwyddyn 6 wedi bod yn derbyn gwersi beicio a diogelwch y ffordd. Diolch i Helen o'r Urdd am ei chymorth.

**Ysgol Feithrin Coedmor**



Gwelir rhai o blant cylch Meithrin Coedmor gyda Miss Debbie a'r harweinyddes Miss Georgina.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi eu cefnogi nhw dros y flwyddyn. Rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn wrth gynnal amrywiaeth o weithgareddau i godi arian gan gynnwys sel cacennau, sioe ffasiynau, parti body siop a thaith gerdded o gwmpas y pentref.

Derbyniodd y cylch arolwg gan estyn yn ddiweddar a chafwyd adroddiad arbennig o dda. Dywed yr adroddiad bod y plant yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad a derbynia'r plant brofiadau cyffrous ac ymatebant yn dda i'r amrywiaeth o brofiadau. Cafwyd beirniadaeth dda am safon yr addysgu gan feirniadu bod y safon yn gyson dda. Yn ogystal ag arolwg estyn cawsom arolwg cylch Meithrin rhagorol, sydd yn cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar. Cafwyd y statws cylch Rhagorol ar ôl yr ymweliad. Diolch yn fawr iawn i Miss Georgina a Miss Debbie am eu gwaith caled.

Rydym yn ffarwelio â Miss Georgina wrth iddi orffen yn y cylch. Hoffwn ddiolch iddi am ei holl waith arbennig dros y flwyddyn a dymunwn bob lwc iddi yn y dyfodol. Mae wedi bod yn weithgar iawn yn y cylch. Hoffwn groesawu Miss Hannah nôl o'i chyfnod mamolaeth.

**Diolch**

Dymuna Bethan a'r teulu, Pantscawen, Pontsian [gynt o 21 Heol Hathren] ddiolch yn fawr iawn am y caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Ian ym mis Mehefin. Diolch hefyd am y cyfraniadau tuag at y dair elusen yn Llanybydder.

**Sefydliad y Merched Coedmor**

Daeth y Gangen ynghyd ar nos Lun 2ail o Orffennaf yn Heol Hathren, Cwmann i fynd ar daith ddirgel oedd wedi ei threfnu gan Elma Phillips a Helena Gregson. Pen y daith oedd Pumpkin Farm, Allt y Gog, Felinwen lle'n croesawyd gan Lisa Fearn a aeth ati i arddangos ffordd i baratoi bwyd yn cynnwys mathau o fara, cyw iar, llysiau a saws a'i ddilyn gan bwdin o ffrwythau haf wedi ei baratoi mewn ffordd arbennig.

Does dim rhaid dweud ein bod i gyd wedi mwynhau'n fawr brofi'r bwydydd yma ar y diwedd.

Diolchodd Mary Davies, ein Llywydd i Lisa am noson ddiddorol a hwylus a diolchodd hefyd i Elma ac Helena am drefnu'r daith.

**Ffair Ram**

Cynhelir Ffari Ram ar gae pentref Cwmann ar yr 8fed Medi. Y llywyddion eleni fydd Mr a Mrs Gary Jones Bryndolau Cwmann. Dylid mynd â defaid a nwyddau rhwng 10 a 11.30 y bore. Cysylltwch ag Eiddig Jones 422655 neu Danny Davies 423692 am fwy o wybodaeth. Gellir lawrlwytho'r rhaglen o wefan www.ffairram.btck.co.uk Cofiwch ddod i gefnogi ac i fwynhau'r diwrnod.

# Ffarmers

**Diolch**

Dymuna Mrs Roz Harries Jones, Blaenhathren, sy'n cynrychioli Ambiwlans Awyr Cymru yn yr ardal yma, ddiolch i Aelwyn, Avril a'r teulu, Caegwyn, ar ran yr elusen am eu rhodd garedig o £500 tuag at waith y gwasanaeth arbennig yma.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Carys Thomas, Penywaun ar ennill gradd 2:1 mewn Daearyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth. Mae Carys wedi ei hethol yn Lywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Aberystwyth, swydd y bydd yn ei chyflawni am y flwyddyn nesaf. Da iawn ti, a phob hwyl i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Wernlwyd yn dilyn marwolaeth Mrs Jane Jones – mam, mamgu a hen famgu annwyl iawn.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

**Noddi Sgwar**

Mae Cyngor Rheolaeth Neuadd Bro Fana wedi penderfynu ymgymeryd â phrosiect uchelgeisiol i wella Parc Bro Fana er budd y gymuned leol. Mae'r Parc yn cael cryn dipyn o ddefnydd gan blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r Sioe, y Carnifal ac ati, a theimlwn fod angen gwella'r adnoddau i wneud y Parc yn fwy cyraeddadwy a defnyddiol i bawb o fewn y gymuned.

Mae'r gwaith ar y Parc bellach wedi cychwyn, gyda'r gwaith yn nwylo diogel Alan Carpenter, Crugybar. Bydd y Parc ar gau am gyfnod dros fisoedd yr haf, gan fod yna beiriannau trwm a loriau yn gweithio ar y safle. Yn anffodus, mae'r tywydd gwlyb yn rhwystro gwaith ar adegau, sy'n golygu fod y prosiect yn mynd i gymeryd mwy o amser na fwriadwyd ar y cychwyn.

Mae cost y gwaith yn £12,680.83, ac 'rydym wedi llwyddo i ennill cymorth ariannol o £10,144.66 o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'n rhaid i ni felly ariannu'r gweddill o £2,536.17 o Gronfa'r Neuadd. Gan fod y Neuadd yn hollol ddibynnol ar gefnogaeth wirfoddol i gynnal a chadw y Neuadd a'r Parc, 'rydym yn trefnu apêl i godi'r arian sydd ei angen i ymgymeryd â phrosiect y Parc, gan ofyn yn garedig i gefnogwyr i Noddi Sgwâr (1 metr sgwâr) ar y Parc am £1 y sgwâr. Gobeithio y medrwch gefnogi'r ymgyrch arbennig yma, a diolchwn am bob cefnogaeth. Mae gan aelodau o Gyngor y Neuadd ffurflenni noddi.

Bydd rhifau yn cael eu tynnu gyda gwobrau ariannol i bawb a noddodd sgwâr, ar ddiwedd yr Apêl. Bydd yna 5 gwobr o £10, a 10 gwobr o £5.

**Y Carnifal a Mabolgampau**

Cynhaliwyd y Carnifal a'r Mabolgampau blynyddol yn y pentref ar yr 11eg o Awst. Llywyddion y dydd oedd Eurig a Wendy Jones, Erwau. Cafwyd prynhawn hwylus gyda'r plant yn mwynhau yn eu gwisgoedd ffansi, ac yn y mabolgampau. Brenhines y Rhosynnod oedd Niah Bouvet, Y Drovers gyda Sara Jones, Sŵn y Nant yn forwyn fach. Y Tywysog Bach oedd James Bouvet, Y Drovers, gyda Bryn Jones, Sŵn y Nant yn was bach. Diolch i Ethel a Judy am eu gwaith caled yn paratoi ar gyfer y dydd. Ar y Sul wedi'r carnifal, cafwyd helfa drysor wedi ei threfnu gan Philip ac Abi Jenkins, Tynreithyn. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y digwyddiad.


2012

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

12fed o Hydref

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

Neuadd Felin-fach

Mynediad £1

Arweinydd y noson Geraint Lloyd

Beirniad Y Prifardd Dylan Iorwerth

Y TINCER · Y Barcud · Y Garthen · Yr Angor · Llais Aeron · CLONC · Y DOLEN · Y Gambo

O'r Llwyfan

Dweud Stori Ddoniol

Sgets, gyda dim mwy na chwech mewn nifer yn y grŵp, neu ddeialog, i bara dim mwy na phum munud. Testun - cwynion i'r golygydd.

Datganiad llwyau, i gyfeiliant, neu'n ddigyfeiliant

Llefaru - darllen darn heb ei atalnodi

Côr Garglo
Rhoddir y dôn ar y noson

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd.
Cyflwynir tlws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Gwaith Cartref

Slogan - i ddenu pobl i'r Eisteddfod Ddwl.

Ar gyfer dysgwyr:
Ysgrifennu dyddiadur gwyliau - dim mwy na 300 o eiriau.

Ar gyfer plant oed cynradd:
Peintio Hunan Bortread.

Ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed:
Llythyr mynegi barn - dim mwy na 300 o eiriau o ddiddordeb i ddarllenwyr eich papur bro.

Llunio brawddeg, gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau C-Y-S-T-A-D-L-U

Gorffen limrig - "Un noson wrth fynd lan i'r gwely"

Creu poster yn hysbysebu papur bro.

Cefnogwch eich papur bro!



Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw papur bro mewn amlen wedi atodi) erbyn y 5ed Hydref i:
CLONC, Tycerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET.
Mwy o fanylion oddi wrth Dylan Lewis, Papur Bro Clonc, 07794741011, cadeirydd@clonc.co.uk


# Clwb Clonc

## Medi 2012

**£25 rhif 307 :**
Dewi Jones,
Brynsiriol, Llanllwni.

**£20 rhif 410 :**
Llion a Meirion Thomas,
Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog,
Llambed.

**£15 rhif 67 :**
Geraint Davies,
Hengoed, Heol Llyswen,
Aberaeron.

**£10 rhif 259 :**
Sara Elan Jones,
Araul, Cwmann.

**£10 rhif 246 :**
Elin Haf Jones,
Tynewydd, Maesycrugiau.

**£10 rhif 214 :**
Ffion Jenkins,
Tyllwyd, Maestir, Llambed.

Rhifyn mis Hydref
Yn y Siopau
**4ydd Hydref**
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
**24ain Medi**


Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur · Yswiriant tŷ/cynnwys
Teithio · Fferm a busnes
Cyfrifoldeb · Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS
Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

# Drefach a Llanwenog

**Eglwys Santes Gwenog**

Er gwaethaf y tywydd garw a siomedig gobeithio fod pawb wedi mwynhau gwyliau'r Haf. Ar y 6ed o Orffennaf cynhaliwyd Helfa Drysor wedi'i threfnu gan Mr a Mrs Steve Greenfield, diolch iddynt am eu trefniadau trylwyr a arweiniodd at noson ddifyr a meddylgar!! Llongyfarchiadau i'r enillwyr sef Mr Peter a Siôn Davies. Gwnaed elw o £60 punt. Diolchodd y Ficer, Y Parch Suzy Bale i bawb am eu cefnogaeth.

Ar ddiwedd tymor yr Haf ffarweliwyd â 6 disgybl o flwyddyn chwech Ysgol Eglwysig Llanwenog. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn Ysgol Bro Pedr, Llambed. Llongyfarchiadau i ieuenctid y plwyf ar eu llwyddiant mewn arholiadau yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Siwan Davies, Llysderi, enillydd 'Tlws yr Ifanc' yn Eisteddfod Bodffordd Sir Fôn, ym mis Gorffennaf. Hefyd daeth llwyddiant i Carys Davies, Y Cartws, a dderbyniodd radd mewn Chwaraeon ac Ymarfer Corff o Brifysgol Metropolic (UWISC) Caerdydd ac mae Sioned ei chwaer wedi'i hapwyntio'n brif ferch yn Ysgol Bro Pedr am y flwyddyn nesaf.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylus a dymunwn adferiad llwyr iddynt.

**Clwb 100 Mehefin**

1. Hyw Davies,Ornant
2. Iwan Brain, Llangain
3. Pauline Roberts Jones, Tynporth

**Clwb Clonc Gorffennaf**

1. Clive Davies, Llanwenog
2. Caroline Davies, Llysderi
3. Margaret Roberts, Llambed

**Neuadd y Pentref, Drefach**

Clwb 100 Mehefin
£10 Glynis Morris, Cae Ceffylau
£5 Alun James, Llanybydder
Clwb 100 Gorffennaf
£10 Viria Jones, Gellideg
£5 Megan Evans, Cefn Rhuddlan Isaf
Clwb 100 Awst
£10 Audrey Phillips, Maesygarn
£5 Carys Ffion Bowen, Afallon
Clwb 100 Medi
£10 Arthur a Maureen Davies, Beulah
£5 Cliff Thomas, Penbryn.

**Diolch**

Dymuna Eifion a'r teulu, Afallon, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad wedi marwolaeth ei chwaer Maggie, yn Chislehurst, Caint yn ddiweddar.

**Penblwydd Arbennig**

Dathlodd John Davies, Bwlchmawr benblwydd arbennig iawn yn ystod yr Haf. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

**Priodas Dda**

Yn ystod mis Awst priododd Steffan Davies, Bryndolau, Brynteg â Lowri Evans o Droedyraur. Dymuniadau gorau i chi yn eich bywyd priodasol.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Siwan Davies, Llysderi ar ennill Tlws yr Ifanc dan 25oed yn Eisteddfod Bodffordd, Ynys Môn yn ddiweddar. 'Dal ati i farddoni' oedd neges y beirniad, Karen Owen.

**Swydd Newydd**

Pob hwyl i Nia Evans, Vale of Cledlyn ar ei swydd newydd fel Nyrs ar ward arbennig y Babis. Gobeithio dy fod wedi setlo mewn i fod yn Nyrs unwaith yn rhagor erbyn hyn.

**Dyweddïo**

Llongyfarchiadau i Meinir Jones ac Andrew, Cloch-yr-ŷd ar achlysur eu dyweddïad ar ddechrau mis Awst.

**Arholiad**

Llongyfarchiadau i Hafwen Davies, Fronheulog ar basio Gradd 1 Piano gyda theilyngdod. Da iawn ti.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â Eifion ac Yvonne a'r teulu oll yn Afallon o golli chwaer a modryb yn ddiweddar.

Hefyd cofiwn am Mrs Megan Evans a'r teulu. Cefnrhuddlan Isaf yn dilyn eu profedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith sef John Morris o Landdeiniol ar ddiwedd mis Awst.

**Wyres newydd**

Daeth newyddion da i Gillian ac Emyr Jones, Meysydd yn ystod canol Awst pan ganwyd wyres fach newydd o'r enw Beca Maldwyn i Aled a Tegwen lan ym Mangor. Llongyfarchiadau mawr i chwi a a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Cynghrair Cymunedau Cymru**

Ar nos Fawrth Gorffennaf 17eg cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Drefach wedi ei drefnu gan Cymdeithas yr Iaith i drafod dyfodol ein cymunedau. Roedd hwn yn un o gyfres o gyfarfodydd wedi eu trefnu ar draws Cymru er mwyn creu Cynghrair Cymunedau Cymru. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Nans Davies a'r siaradwyr oedd Enfys Hatcher (C.Ff.I. Llanwenog), Cynghorydd Bill Green (Cyngor Cymuned Llanwenog) a Ffred Ffransis (Cymdeithas yr Iaith). Braf oedd gweld y neuadd yn llawn a chafwyd sylwadau a thrafodaeth buddiol. Gwahoddwyd cymunedau plwyf Llanwenog i ddod yn rhan o Gynghrair Cymunedau Cymru. Penderfynwyd derbyn y gwahoddiad a sefydlu Menter Ward Llanwenog a'r cyffiniau. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Medi 18fed am 7.30p.m. yng Nghefnhafod Gorsgoch. Gallwch ddanfon eich sylwadau o flaen llaw cyn y noson i Cefnhafod neu ar e-bost i wardllanwenog@gmail.com

**Llongyfrachiadau**

Llongyfarchiadau i Gwawr Jones, Meysydd, Llanwenog ar dderbyn gradd Meistr M Phil mewn Cerddoriaeth o Brifysgol Bangor yn ystod y seremoni raddio yn ddiweddar. Cyflwynodd waith ar faledi'r 18fed a'r 19eg ganrif ac ystyried cyfraniad y ferch i'r maes fel rhan o'r gwaith ymchwil. Mae'n parhau ym Mangor, yn darlithio rhan-amser ac yn astudio ymhellach ar gyfer Ph D yn yr adran Gerddoriaeth. Roedd hi'n braf dy glywed yn chwarae'r piano yn y sioe gerdd 'Sneb yn Becso Dam' a fu ar daith i Gaerfyrddin, Caerdydd, Y Rhyl a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Gwyr yn ddiweddar. Pob dymuniad da gyda dy gyfraniadau amrywiol ym maes cerddoriaeth.

**Y Gymdeithas Hŷn**

Tŷ-Ddewi oedd cyrchfan y trip diwethaf, ond arhoswyd yn Yr Hen Efail ger San Clêr am 'baned. Wedi cyrraedd Tŷ-Ddewi, braf o beth oedd cael ein tywys o amgylch yr Eglwys Gadeiriol gan un o'r gwirfoddolwyr, a chael cymaint fwy o hanes y fangre na chrwydro o gwmpas fel unigolion.

Cafwyd swper blasus yng Ngwesty Nantyffin, Clunderwen ar y ffordd adre.

Bydd trip olaf y tymor yn mynd i Benrhyn Gŵyr ar y 12fed o fis Medi, y bws i adael garej Pontfaen am 9 y bore. Enwau i Yvonne 480590 neu Brenda Jones 434297.

**C.FF.I Llanwenog**

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb yn ystod yr Haf, a chafodd y canlynol eu dewis fel swyddogion:

Llywydd: Mr Evan David Evans, Brynhogfaen, Cwrtnewydd.

Is-lywydd: Mr Puw Jones, Gorlan, Llanybydder.

Cadeirydd: Arwel Jenkins, Bryn Rhosyn, Llanybydder.

Is-Gadeirydd: Cerys Lloyd, Hafan Clettwr, Talgarreg.

Ysgrifennydd: Luned Mair, Pen-y-nant, Alltyblaca.

Is-Ysgrifennydd: Menna Williams, 45 Heol y Gaer, Llanybydder.

Ysgrifennydd cofnodion: Meinir Davies, Caerwenog, Cwmsychbant.

Gohebydd y wasg: Gwawr Hatcher, Cefn Hafod, Gorsgoch.

Swyddogion y llyfr lloffion: Elin Haf Jones, Iwan Evans, Tomos Evans, Daniel Morgans, Rhodri Hatcher ac Alwyn Evans.

Ysgrifenyddion y rhaglen: Siwan Davies, Llysderi, Llanwenog a Menna Williams,45 Heol y Gaer, Llanybydder.

Trysorydd: Siwan Davies, Llysderi, Llanwenog.

Is-Drysorydd: Carwyn Davies, Caerwenog, Cwmsychbant.

Swyddog Gwefan: Sioned Davies, Cartws, Prengwyn.

Bu'r Clwb yn brysur yn paratoi ac yn cystadlu ar gyfer Sioe Gorsgoch. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Mae bois y T.O.W wedi bod yn brysur rhwng popeth.Cynhaliwyd pencampwriaeth Cymru yn ysgol y Dolau, a bu Llanwenog yn llwyddiannus gan fynd ymlaen i gynrhychioli Cymru ar lefel Prydeinig.

Daeth y bois hefyd yn 3ydd yn y Sioe Frenhinol yng nghystadleuaeth y C.Ff.I.

Llongyfarchiadau mawr i aelod o'r clwb ar ei briodas, sef Steffan Davies, Bryndolau, Brynteg a Lowri Davies, o Droedyraur. Gobeithio i chi fwynhau y mis mêl.

Cafodd cyfarfod cyntaf y clwb ei gynnal ar y 3ydd o Fedi, lle cafwyd noson hwylus yng ngofal arweinyddion y clwb.

Croeso i aelodau newydd ymuno â'r clwb. Os oes gennych ddiddordeb ymuno, yna cysyllwch ag unrhyw un o'r swyddogion uchod.

**101 oed**



Mrs Ada Williams, Cartref Maes-y-felin, Drefach [gynt o Lanybydder] a ddathlodd ei phen-blwydd yn 101 oed yn ystod mis Awst. Iechyd da i chwi eto.

Diolch i'r **493** ohonoch â ymunodd â Chlwb CLONC am y flwyddyn 2012 – 2013. Mae eich cyfraniad yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn.

# Pentrebach

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â Mair ac Eric Jones, Pant-teg a'r teulu oll ar golli brawd yng nghyfraith ac ewythr hoffus o Aberaeron sef Dai Lletyshon. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Hefyd yn ystod mis Gorffennaf collwyd un o hoelion wyth yr ardal pan glywyd am farwolaeth Mrs Hazel Davies, Frondolau. Roedd wedi brwydro yn ddewr iawn yn erbyn afiechyd blin ac fe welir ei heisiau yn fawr iawn. Bu'r gwasanaeth angladdol yn gyhoeddus yng Nghapel Shiloh, Llambed ac fe ddaeth tyrfa enfawr i dalu'r gymwynas olaf iddi. Cydymdeimlwn yn arbenning iawn gyda'i phriod Twynog a'r plant Eirian, Eleri a Rhian a'u teuluoedd oll yn eu galar o golli un a oedd mor annwyl iddynt ac hefyd i ardal enfawr.

**Penblwydd Arbennig**

Dymuniadau gorau i Eric Jones, Pant-teg, Pentrebach a fydd yn dathlu penblwydd arbennig iawn ddiwedd mis Medi. Penblwydd Hapus.

**Gair o ddiolch**

Dymuna Twynog a'r teulu, Frondolau, Pentrebach, ddiolch am bob arwydd o gariad a chydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth ddiweddar . Diolch am haelioni llu o ffrindiau a pherthnasau a gyfrannodd at y gronfa er côf am Hazel. Yn ystod y teyrngedau yn y gwasanaeth coffa yng Nghapel Shiloh ar Gorffennaf 13, cyfeiriwyd at ddau englyn a cherdd – geiriau sydd yn gysur mawr i ni fel teulu :

**Cofio Hazel**

O dawelwch Frondolau – roedd un hardd
A'i naws o'r gwynfydau;
Yn ei hedd mae rhinweddau
Y pur o hyd yn parhau.
Jon Meirion

Hiraeth am lais cyfarwydd – am y wên,
Am ei holl gynhesrwydd.
Cur am golli'i rhoddi rhwydd,
Dagrau am garedigrwydd.
Dylan Iorwerth

I eraill, hi oedd yn gadarn ei ffydd,
Yn weithwraig ddygn dros bob achos da,
Yn barod ei gwên, yn driw i'w chymwynas,
Ei phersonoliaeth yn gynnes, fel heulwen ha'.
I ni, ar yr aelwyd, hi ydoedd ein hangor,
Ei harbwr hi a'n cadwodd rhag cam,
Hi roddodd adenydd, ei ffydd ynom ni,
Yng ngwreiddiau y gollen, roedd cariad 'Mam'.
Delor James

# Llangybi




**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau calonnog i Eirian a Caryl Griffiths, Fferm Glandulas ar eu llwyddiant ysgubol yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Cawsant un ail wobr, dwy wobr, pencampwr y sioe a dwy is-bencampwr yn y Dosbarth Gwartheg Duon Cymru. Cipiodd Caryl y wobr i'r pencampwr tywysydd ifanc yn Sioe Aberhonddu. Da iawn chi.

**Cyrddau Diolchgarwch**

Cynhelir oedfa Ddiolchgarwch Maesyffynnon ar Fedi 12fed am 2.00y.p. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Stephen Morgan. Croeso cynnes i bawb.

Ar Fedi 19eg am 2.00y.p. cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Ebenezer. Y gennad fydd y Parch John Gwilym Jones. Croeso cynnes i bawb.

**Sioe Llambed**

Llongyfarchiadau i Mr David Thomas, Maesfforest am y llwyddiant a gafodd yn y Sioe. Cafodd un wobr gyntaf ac un arbennig am ei gynnyrch.

**Diolch**

Dymuna Geraint, Edwina a'r teulu ddiolch yn gynnes iawn i deulu, cyfeillion, cymdogion a chyd-weithwyr am bob arwydd o gydymdeimlad mewn gair a gweithred ac am bob caredigrwydd a chymorth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, mam yng nghyfraith a mam-gu annwyl a thyner iawn sef Dilwen Davies, Tegfan, Llangybi. Gwerthfawrogwn yn ogystal, y cyfraniadau hael a dderbyniwyd eisoes tuag at Ward Meurig, Ysbyty Bronglais a'r Adran Anghenion Arbennig, Ysgol Bro Pedr.

**Pen-blwydd Arbennig**

Pen-blwydd hapus i Rowena Williams, Maeslyn ar ei phen-blwydd yn 80 oed yn ystod mis Awst.

Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref
Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.
Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613
*Cwmann*
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes
*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach*
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG
Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd
13 Stryd y Bont, Llambed
01570 422009
Ar agor:
12:00-14:30 a 17:00-23:00
Cynigion arbennig bwffe
ac amser cinio
Darllenwch ein bwydlen
a'n cynigion arbennig ar Facebook

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Llanbedr Pont Steffan




Gareth Richards, Goedwig yn ennill y marciau mwyaf yn Adran y Trefnu Blodau ac yn derbyn cwpan Arian.



Dafad Charollais a ddangosir gan Bronwen o H & B Evans, Glantren Fach, Llanybydder a gipiodd Bencampwr Benywaidd y Rhyngfrid ac enillodd y gil wobr yn y brif Bencampwriaeth.



Rebecca Miller, Llanfair Clydogau enillodd y cwpanau am y marciau mwyaf yn yr Adran Goginio Agored, yr Adran Goginio ar gyfer Ysgol Uwchradd a'r Adran Goginio i blant. Da iawn ti.



Llywydd y Sioe, Aneurin Davies yn cyflwyno Berwyn Hughes, Cwmhendryd, Llambed gyda thlws y Pencampwr yn Adran y Gwartheg a enillwyd gan ei heffer bîff.

**Y Siambr Fasnach**

Bu'n dymor gweithgar i aelodau'r Siambr yn nhref Llanbed a braf gweld nifer y mynychwyr yn cynyddu o gyfarfod i gyfarfod. Siaradwr yn y cyfarfod cyntaf yn y coleg ar yr 21ain o Fai oedd Ken Shaw a fu'n annerch yr aelodau am brynu trydan a nwy ar y cyd er mwyn arbed arian.

Yn ail, cafwyd cyfarfod yn y Siop Goffi yn Y Drindod Dewi Sant ar y 18fed o Fehefin. Siaradodd Denzil Morgan am y datblygiadau diweddaraf yn y coleg. Esboniodd Kevin Evans sut y gallai'r Uned Argraffu gydweithio â busnesau lleol. Rhoddwyd y lluniaeth gan y Cadeirydd newydd.

Cafwyd noson ddifyr yng ngweithle LAS ar Ffordd Tregaron ar y 16eg o Orffennaf. Diolch i Tina Morris a Mark Saunders a'r staff am ddangos y drefn o ddidoli gwastraff ac ailgylchu. Darparwyd lluniaeth gan LAS.

Cynhaliwyd Taith Feicio i godi arian tuag at y goleuadau Nadolig ar y 5ed o Awst. Daeth rhyw hanner cant o feicwyr ynghyd a mwynhawyd taith bleserus o gwmpas Llanfair gan yr ieuenctid a thaith o gwmpas Tregaron gan y beicwyr profiadol. Cafwyd barbiciw i orffen yn y Clwb Rygbi. Codwyd rhyw £1500 drwy gyfraniadau. Diolch i Gareth Harries am drefnu ac i bawb am bob cefnogaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 17eg o Fedi yn yr Hen Goleg am 5.45 yr hwyr pan fydd y Cyng. Gareth Lloyd yn annerch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Noddfa**

Cynhaliwyd oedfa deuluol ar brynhawn Sul sych a heulog yn Ysgol Ffynnonbedr a braf oedd gweld nifer dda o blant, rhieni ac aelodau yn bresennol. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos a chyhoeddwyd yr emynau gan Lisa, Elan, Beca, Gwenllian ac Osian Jones. Darllenwyd dameg " Y Mab Afradlon" gan Llinos ac yna daeth y cyfan yn fyw o flaen ein llygaid wrth i'r plant actio'r hanes a chael llawer o hwyl wrth wneud hynny a hefyd dysgu'r wers bwysig fod Duw yn caru pawb. Roedd ein Gweinidog wedi dod â chyflenwad o hetiau, balwns a siocledi bach i'w rhannu er mwyn efelychu'r parti yn y ddameg. Roedd y plant wrth eu bodd.

Diolchodd ein Gweinidog i Llinos am gyfeilio ac am drefnu i ni gwrdd yn Ffynnonbedr, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan ac i bawb am eu cefnogaeth.

Allan â ni wedyn i fwynhau picnic ac i gymdeithasu yn yr heulwen. Paratowyd cŵn poeth i'r plant ac yna bu rhai ohonynt yn chwarae pêl droed, eraill yn cael hwyl ar yr offer amrywiol oedd ar gael yno ac ambell un yn cadw Dad yn brysur trwy guddio yn yr ardd wyllt.

Mae ein dyled yn fawr i'n Gweinidog am baratoi'r oedfa ac am ei chyfraniad gwerthfawr yn ystod y prynhawn. Cytunai pawb ein bod wedi cael amser hwyliog a bendithiol yng nghwmni'n gilydd a'r tywydd sych yn goron ar y gweithgareddau.

Llongyfarchiadau cynnes i'r Parchedig Athro Densil Morgan, un o'n haelodau ar ei anrhydeddu yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg eleni. Fe'i urddwyd yn aelod o'r orsedd - Urdd Derwydd er Anrhydedd (Gwisg Las). Hefyd yn yr Eisteddfod lansiwyd cyfrol o'i waith yng nghyfres 'Llên y Llenor' yn seiliedig ar fywyd Edward Mathews, Ewenni. Tarddodd y gyfrol o wahoddiad a ddaeth iddo i draddodi Darlith Goffa Islwyn yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ym mis Mawrth 2011. Ef yw Pennaeth Ysgol Diwinyddiaeth Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac mae'n awdur toreithiog yn y ddwy iaith. Cyhoeddir y gyfrol gan wasg Pantycelyn.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Noddfa nos Lun 24 Medi am 7 o'r gloch a'r Parchedig Dafydd Aeron yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y misoedd diwethaf.

**Bedyddwyr**

Aeth llond bws o aelodau eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi am drip ar y Sul olaf ym mis Gorffennaf i Rydwilym sef mangre hanesyddol i ni fel enwad. Mae'r heol sydd yn arwain at y capel yn un gul a throellog iawn a bu'n rhaid cael gwasanaeth bws mini i'n cludo yno'n ddiogel. Fe'n croesawyd i'r festri gan y chwiorydd i fwyta'n brechdanau a diolch iddynt am baratoi paned a chacennau o bob math i ni. Cawsom gyfle wedyn i grwydro'n hamddenol ac i fwynhau'r golygfeydd hyfryd o'n cwmpas cyn ymuno mewn oedfa arbennig ar y cyd gydag aelodau cylch Rhydwilym. Soniodd y Parchedig Eirian Wyn Lewis mai pleser a braint oedd ein croesawu'n gynnes iawn i Rydwilym oherwydd ei gysylltiad agos ag eglwys Aberduar. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Dewi a Janet, trysorydd a llywydd ein cylch, a phregethwyd gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos. Hefyd diddorol iawn oedd gwrando ar y Parchedig Athro Densil Morgan, Noddfa yn rhoi hanes cychwyn y Bedyddwyr. Diolchodd y Parchedig Eirian Wyn Lewis i bob un ohonynt am eu cyfraniadau gwerthfawr.

Yn dilyn oedfa fendithiol a chofiadwy talwyd ymweliad â Bethel, Mynachlogddu lle cawsom ychydig o'r hanes gan Eirian a hefyd gweld bedd Twm Carnabwth, arweinydd terfysgoedd Beca.

Nôl â ni i'r bws wedyn ac ar daith fer tu allan i'r pentref a chael braslun o hanes Waldo, un o gewri Cymru gan Eirian cyn ymweld â'r Garreg Goffa

# Llanbedr Pont Steffan

iddo.

Daeth ein diwrnod i ben yn ngwesty Nant y Ffin wrth i bawb fwynhau cinio dydd Sul ardderchog. Cyn troi tuag adre datganodd Janet ei gwerthfawrogiad i'n Gweinidog ac i Eirian am baratoi mor ardderchog ar ein cyfer, i Dewi ein trysorydd am ei drefniadau manwl yntau, i staff y Gwesty am y wledd arbennig, i bawb am eu cefnogaeth ac yn olaf ond nid y lleiaf i Granville am ein cludo'n ddiogel. Roedd pawb yn gytûn ein bod wedi cael diwrnod wrth ein bodd a'r tywydd braf yn ychwanegu at ein mwynhad.

**Oedfa ar Radio Cymru**

Y Parchedig Jill Tomos a rhai o aelodau cylch darllen eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi sef Hannilia Court, Emlyn Davies, Janet Evans, Nesta Harries, Margaret Jones ac Ann Morgan oedd yn cyflwyno'r oedfa ar Radio Cymru ar Sul 12 Awst yn seiliedig ar hanes Ioan Fedyddiwr. Lluniwyd yr oedfa gan ein Gweinidog ac roedd graen arbennig ar gyfraniadau pawb.

Diolchir yn gynnes i'r Parchedig Jill Tomos am ei pharatoadau trylwyr ac i bawb a gymerodd ran. Bu canmoliaeth mawr i'r oedfa.

**Ysgol Sul Noddfa**

Mae'r aelodau wedi mwynhau seibiant haeddiannol yn ystod misoedd yr haf. Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau nos Wener 7 Medi o 4 hyd 5 o'r gloch. Sul nesaf 9 Medi bydd Lisa, Elan a Beca a rhai o'r Mamau yn canu mewn oedfa arbennig yng ngofal Merched y Wawr Llambed a'r cylch yn neuadd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fel rhan o Benwythnos Preswyl Cenedlaethol y Mudiad.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Dr. Geraint Phillips, gynt o Maesyllan, ar ennill gwobr Syr Ellis Griffith am y gyfrol academaidd orau yn y Gymraeg a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r gyfrol yn ymdrin ag hanes Owen Myfyr, y gŵr a fu'n gefnogwr i Iolo Morganwg ac amryw o lenorion pwysig eraill. Mae Geraint ar staff y Llyfrgell Genedlaethol ac yn byw yn Aberystwyth. Mae Geraint yn fab i John a Bethan Phillips.

**Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg**

Ar 4ydd o Orffennaf cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain wrth law Mrs. Margret Jones, Pentrebach. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af. Gwendline Jones, Llanybydder, 2il. Mai Williams, Tregaron, 3ydd. Peter Jones, Llambed, Merched: 1af. Barbara Shaw, Cwmann, 2il. Sarah Hymphreys Jones, Alltyblacca, 3ydd. Nana Davies, Stryd Newydd, Llambed, Carden Miniature: Dynion – Edward Lockyer, Hafandeg, Merched – Margret Jones, Pentrebach. Bwrw Allan: Enillwyr – Mai Williams a Mary



Aelodau pwyllgor Merched y Wawr Llambed a'r cylch dan lywyddiaeth Dilwen a Morfudd yn dilyn swper blasus yn y Grannell i ddiweddu blwyddyn lwyddiannus iawn.

Evans, Llanwnnen, Ail: Nana Davies a Iorwerth Evans, Llangybi.

Enillwyr 18fed o Orffennaf – Dynion: 1af – Gwendline Davies, Llanwnnen, 2il – Gwendoline Jones, Llanybydder, 3ydd – Ray Jenkins, Llanybydder, Merched: Cydradd 1af – Mary Evans, Llanwnnen a Cathrina Davies, Aberaeron, 2il – Ifan P. Jones, Aberarth. Carden Miniature: Dynion – Peter Jones, Llambed, Merched – Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach. Bwrw Allan: Enillwyr – Breian James, Trelech a Lil Jones, Llambed, Ail – Ray Jenkins, Llanybydder a Mai Williams, Tregaron.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Siwan Hedd Mason o Lanfairpwll ar ei llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Llambed eleni. Cyflawnodd gamp enfawr drwy ennill y wobr gyntaf yn yr unawd, yr alaw werin, a'r gystadleuaeth offerynnol dan 12 oed. Hefyd fe'i dyfarnwyd yn gydradd gyntaf yn yr unawd cerdd dant. Yn ogystal â hyn Siwan enillodd "Rose Bowl" sialens barhaol er cof am Mrs. Ray Morgan i'r cystadleuydd mwyaf addawol o dan 16 oed yn yr Adran Gerdd. Mae Siwan yn wyres i Bryn a June Mason, Row Harford Llambed, Tad-cu a Mam-gu balch iawn mae'n siwr. Estynnir pob dymuniad da i Siwan i'r dyfodol.

**Profedigaeth**

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyraf a dwysaf gyda theulu'r diweddar Mrs Catherine Morgan, Garej Pontfaen a fu fawr yn ystod mis Gorffennaf.

**Diolch**

Dymuna Menna, Granville a theulu Garej Pontfaen ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad o golli mam a mamgu annwyl sef Mrs Catherine Morgan.

Dymuna Cyril a Rosemary Davies, Brynteg, Heol y Wig, Llanbed ddiolch o galon i bawb am y llu o gardiau, anrhegion a'r ymweliadau a gawsom ar achlysur ein priodas aur ar Awst 11eg. Diolch i'r teulu am ddiwrnod hapus yn dathlu.

Dymuna Doreen ac Elisabeth ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt o golli eu brawd Sam Rees o Gribyn (Trefin, Stryd Newydd, Llanbed gynt). Diolch hefyd i bawb a gyfranodd at Ambiwlans Awyr Cymru lle derbyniwyd £1,000 er cof am Sam.

**Cymdeithas Hanes**

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn cychwyn Nos Fawrth, Medi'r 18fed am 7.30 yn Hen Neuadd prifysgol Y Drindod Dewi Sant. Siaradwr gwadd y noson fydd Steve Dubé, a fydd yn sôn am ddyddiaduron 1860 – 62 Rhys Thomas, Dôl-llan, Llandysul, sy'n cofnodi'n eitha' manwl ei chwantau rhywiol! Mae Steve Dubé wedi golygu a chyhoeddi llyfr ar y dyddiaduron yma, 'My Failings and Imperfections'.




Yn y llun gwelir cyfranogwyr o Uned Adfer y Galon, Llambed yn mwynhau dathlu y Gemau Olympaidd yn y Ganolfan Hamdden ar 26ain Gorffennaf. Hefyd yn y llun mae Paul Jones, Carl Williams, Lois Mantell, Carwen Richards a Caryl Davies,a fu'n helpu gyda'r trefniadau.

# Graddio



Llongyfarchiadau i Eiddwen Rees, Llanllwnii ar ennill Gradd 2:1 yn ddiweddar. Daw'r cyfarchion oddi wrth Geraint, Annwen, Huw, Iestyn ac Erin.



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Paul Court, Ceincoed Hill, Llanybydder sydd wedi graddio gydag anrhydedd mewn Astudiaethau Cyfryngau ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Dechreuodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Llanybydder ac Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan. Pob lwc i'r dyfodol.



Angharad Morgan-Isaac, Garej Pontfaen, Llambed a raddiodd o Goleg Prifysgol Aberystwyth mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol mewn Busnes a Rheolaeth.

# Gorsgoch

**Arholiad**

Llongyfarchiadau i Briallt Wyn Williams, Hafod-y-Gors ar basio Gradd 2 theori gyda theilyngdod. Da iawn ti.

**Sioe Gorsgoch a Chlwb Ffermwyr Ifainc Llanwenog**

Cynhaliwyd 32ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau a Hen Beiriannau Gorsgoch ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ar ddydd Sadwrn, 18fed o Awst. Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu. Cyflawnwyd y gwaith o feirniadu adrannau'r gwartheg bîff a godro yn yr wythnos cyn y sioe, a phleser yw cofnodi ei fod wedi bod yn llwyddiant unwaith eto. Hyfryd oedd gweld datblygiad newydd yn y sioe eleni wrth i 'Tractor Run' a chystadleuaeth i hen beiriannau gael ei chynnal am y tro cyntaf. O ganlyniad i'r ddaear wlyb ni fu'n bosib cynnal y mabolgampau i'r plant yn ystod y prynhawn ond cafwyd tywydd braf i'r rownderi yn yr hwyr a mwynhawyd yr adloniant nos, sef 'Newshan'. Fe fydd cyfran o elw'r sioe yn cael ei roi i Parkinson's UK Cymru. Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywyddion, Mr a Mrs Dilwyn Thomas, Pantfffynnon, i'r canlynol: **CEFFYLAU**: **Ceffylau mewn llaw – Pencampwr** – Evan (Ianto) Jones, Cwrtnewydd. **Is-bencampwr** – Dai Evans, Aberaeron; **Marchogaeth – Pencampwr** – Elen Evans, Talgarreg. **Is-bencampwr** –Nia Thomas, Talgarreg; **Hynodion y Ceffylau** – Nathan Davies; **Pencampwr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynon Rhys** – Evan (Ianto) Jones, Cwrtnewydd. **DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr** – Huw Evans, Alltgoch. **Is-bencampwr** – Gareth Evans, Parcyrhos. **Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog** – Gethin Morgans, Glwydwern. **Defaid Speckled – Pencampwr** – Ronald a Sue Jones, Meinigwynion Mawr. **Is-bencampwr** – Ronald a Sue Jones, Meinigwynion Mawr. **Defaid Continental – Pencampwr** – Andrew a Chris Owens, Glantre, Pontsian. **Is-bencampwr** – Teulu Evans, Glantren Fach, Llanybydder. **Unrhyw frîd "Lowland" arall – Pencampwr** – Osian a Hafwen Davies, Fronheulog, Llanwenog. **Is-bencampwr** – Osian a Hafwen Davies, Fronheulog, Llanwenog. **Unrhyw frîd mynyddig arall – Pencampwr** – Iwan Evans, Parcyrhos. **Is-bencampwr** – Ronald a Sue Jones, Meinigwynion Mawr. **Oen i'r cigydd – Pencampwr** – Alaw Jones, Blaenwaun Ganol, Llanwnnen. **Is-bencampwr** – John Jones, Penrheol, Cwmsychpant. **Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid** – Andrew a Chris Owens, Glantre, Pontsian.



Cipiwyd y Bencampwriaeth yn Adran y Ceffylau gan J E Jones, Bridfa Parcybedw, Cwrtnewydd ac a ddangoswyd gan Phil Jones.

**Young handler** – Gethin Morgans, Glwydwern. **Barnu Wyn Tew C.Ff.I** – Anwen Jones, Blaenblodau.

**HEN BEIRIANNAU**: Elgan Jones, Cwrtnewydd

**GWARTHEG BIFF**: **Pencampwr** – Gethin a Rhian Jones, Mynachlog, Talgarreg. **Is-bencampwr** – Teulu Williams, Tynllyn, Llanwnnen.

**GWARTHEG GODRO: Pencampwr** – Teulu Davies, Fron, Pontsian. **Is-bencampwr** – Teulu Jones, Pantyrhendy, Llanarth.

**Y BABELL: Cynnyrch Gardd** – Ernie Hatcher, Pontsian; **Coginio** – Gwyneth Morgans, Pensarnau; **Gwinoedd** – Margaret Jones, Cwrtnewydd; **Cyffaith** – Pamala Davies, Cwrtnewydd; **Gwaith Llaw** – Pamala Davies, Cwrtnewydd; **Blodau** – Erika Davies, Capel y Groes; **Cystadlaethau 18 oed neu iau** – Twm Ebbsworth, Llanwnnen; **Cystadlaethau 26 oed neu iau** – Enfys Hatcher, Gorsgoch; **Adran Plant Ysgol Gynradd: Blwyddyn 6 neu iau** – Guto Ebbsworth, Llanwnnen; **Blwyddyn 2 neu iau** – Megan Davies, Drefach; **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog** – Ysgol Llanwenog; **Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd** – Eirwen Evans, Gorsgoch; **Pencampwr y babell, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller** – Margaret Jones, Cwrtnewydd.






Cipiwyd y grŵp o dri yng nghystadleuaeth y defaid Beulah Penfrith yn y Sioe Fawr gan Elfyn, Gethin a Daniel Morgans, Glwydwern, Gorsgoch.

# Ysgol Bro Pedr

**Ysgol Bro Pedr**
**Campws Cynradd**

Dymunwn ymddeoliad hapus i Mr Wyn a diolch iddo am gyfnod o gydweithio hapus gyda ni yn y sector cynradd. Cawsom wasanaeth hyfryd gyda cherddorfa'r ysgol yn perfformio, Charlotte a Joseph a'r Parti Deulais yn canu ac dangoswyd ffilm a baratowyd gan Mr Roderick o'r plant yn cyfarch Mr Wyn. Gwnaethom ffarwelio hefyd gyda Mrs Bethan Thomas a fu'n aelod o'r staff ers 1998. Diolch yn fawr iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i'r ysgol.

Diolchwn hefyd i'r chwech Cynorthwydd Dysgu a fu'n gweithio gyda ni dros y misoedd diwethaf ac sydd bellach wedi ein gadael:- Liz Williams, Meirianwen Jones Williams, Ffion Evans, Kay Hall, Sarah Williams a Maria Thomas.

Cynhaliwyd bore o werthu cacennau yn yr ysgol a drefnwyd gan y Cyngor Ysgol a disgyblion blwyddyn 6 a gwnaethpwyd elw o £270.00 tuag at brynu adnoddau i ysgol yn Kenya. Diolch i Miss Nerys Davies am gydlynu'r gwaith ac i'r rhieni am fu'n brysur yn coginio.

Llongyfarchiadau i Mr Rees a'r tim gymnasteg ar ennill gwobr am y grŵp â'r wisg orau mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn perfformio yn sioe y Clwb Drama yn Theatr Felinfach yn ddiweddar – "Gardd Llecyn Hardd" a diolch i'r staff yn y theatr am roi'r cyfle gwych yma i'r disgyblion.

Bu'r disgyblion i gyd yn mwynhau ar wibdeithiau haf yn Fferm Folly, yn y sinema, yng Nghastell Carew ac yn Heatherton.

Gwnaeth nifer o ddisgyblion yr ysgol gystadlu yn Chwaraeon y Sir a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar a llongyfarchiadau iddynt i gyd. Aeth Grace Page a Mari Lewis ymlaen i gystadlu dros Ddyfed a Grace yn dod yn bumed a Mari'n gwneud yn dda iawn hefyd.

Daeth Kistiah a Carol Ramaya a Carwen Richards i wasanaeth yn yr ysgol i siarad am y profiad o gario'r ffagl Olympaidd. Bu'r plant yn gofyn cwestiynau iddynt a chafodd bawb y cyfle i ddal y ffagl. Diolch iddynt am eu cyfraniad.

Daeth Mrs Hughes o'r llyfrgell i sôn am gywaith arbennig sy'n digwydd yn y llyfrgelloedd dros yr Haf i hybu plant i ddarllen – felly pawb i fynd i'r llyfrgell leol er mwyn cael cyfle i ennill medal am ddarllen.

Gwnaeth disgyblion blwyddyn 2 baratoi taflen wybodaeth amdanynt eu hunain i gyflwyno i blant yn ysgol yn Ghana. Gobeithiwn glywed yn ôl oddi wrthynt cyn hir er mwyn cael cymharu diwylliant a bywyd yn y ddwy wlad.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 gyfle i ymuno â disgyblion blynyddoedd 7 a 8 mewn diwrnod o gêmau i ddathlu dyfodiad y gêmau Olympaidd. Cafwyd llawer o hwyl a sbri wrth gystadlu a chyfle i wneud ffrindiau newydd. Pob hwyl i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn cychwyn ym mis Medi ar gampws y Sector Uwchradd. Mae un pennod hanesyddol yn dod i ben gydag Ysgol Ffynnonbedr yn cau fel petai a phennod arall yn agor gydag agoriad Ysgol Bro Pedr 3- 19 oed ym mis Medi. Edrychwn ymlaen at gael cychwyn cyfnod newydd yn hanes addysg yn Llambed.

# Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen

**Yr un hwyl mewn lleoliad newydd**

Roedd Eisteddfod Rhys Thomas James, Gŵyl y Banc Awst ychydig yn wahanol eleni ond yr un mor llwyddiannus. Oherwydd gwaith adeiladu, bu'n rhaid symud y lleoliad ar fyr rybudd o neuadd yr ysgol gyfun i neuadd yr ysgol gynradd, sef neuadd Ysgol Ffynnonbedr (Ysgol Bro Pedr yw'r enw erbyn hyn). Yno hefyd y cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r rhagbrofion ac yno roedd y neuadd Celf a Chrefft. Mae'n wir fod llai o le i'r gynulleidfa ond roedd y trefniadau'n hwylus ac ansawdd a safon y cystadlu'n arbennig iawn. Roedd y neuadd yn orlawn ar gyfer llawer iawn o'r cystadlaethau ac roedd hyn yn sicr wedi cyfrannu at yr awyrgylch gynnes a hwyliog a gafwyd. Roedd llawer o gystadleuwyr ifanc wedi teithio o bell i'r Ŵyl eleni eto a chlywyd amrywiaeth o acenion o'r llwyfan.

Wedi dweud hynny, arhosodd nifer o'r gwobrau yn eithaf lleol gan gynnwys rhai o'r prif wobrau. Heiddwen Tomos o Ddôl-mebyd, Pencarreg enillodd y Fedal Ryddiaith gyda thair monolog addas i'w perfformio a J. Eirian Jones, Cwm-ann enillodd y wobr am yr emyn dôn fuddugol (am y seithfed tro). Kees Huysmans enillodd yr Her Unawd dros 25 a Lowri Daniel, gynt o Gellan, gipiodd y brif wobr i lefarwyr i rai dros 25. Mae cysylltiadau lleol hefyd gan Islwyn Edwards o Aberystwyth, enillydd y goron. Aeth y gadair i Abertawe at Huw Dylan Owen, a'r Gadair i rai dan 25 i Carys Mair Davies o Lanbadarn Fawr.

Newid arall eleni oedd y ffaith na chynhaliwyd cyngerdd ar y nos Wener ar ddechrau'r Ŵyl. Bydd Cyngerdd yr Eisteddfod gyda Bois y Castell, Joy Cornock ac eraill yn cael ei chynnal yn nes ymlaen ar 13 Hydref yn yr un lleoliad ag eisteddfod eleni. Arbrawf yw hyn a gobeithir y daw tyrfa dda ynghyd i gefnogi.

Gwir dweud bod y cystadlu'n fwy brwd ar y Llun na'r Sadwrn. Roedd y cystadlu ar y cerdd dant a'r alaw werin yn arbennig o boblogaidd gyda'r ieuenctid. Ond roedd hi'n braf gweld mwy nag un yn cystadlu ar bob un o'r cystadlaethau torfol ar y Sadwrn. Cystadleuaeth newydd eleni oedd y parti unsain i rai o unrhyw oed ac enillwyr cyntaf y gystadleuaeth, yn cipio £100, oedd Parti Adran yr Urdd, Llambed. Enillwyr cystadlaethau torfol eraill oedd Criw Sarn Helen (grŵp llefaru); Ffion, Elin, Megan, Siwan a Steffan o Ledrod (ymgom); Merched Dyffryn Teifi (ensemble lleisiol). Byddai'r pwyllgor yn hoffi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n cystadlu ar y Sadwrn yn y cystadlaethau cyfyngedig i blant y cylch ond gwir dweud bod safon y perfformiadau a gafwyd eleni'n uchel.

Ar y nos Sul, cynhaliwyd ugeinfed Llais Llwyfan Llambed ac roedd Eirlys Myfanwy Davies a gipiodd y wobr o £1000 yn enillydd poblogaidd iawn gyda'r gynulleidfa. Roedd hi'n amlwg ar y noson ei bod wrth ei bodd gyda'i buddugoliaeth.

Dywedodd Dorian Jones, ysgrifennydd cyffredinol yr Ŵyl, iddi fod yn eisteddfod a oedd yn cynnig sawl her ond ei fod yn hapus dros ben gyda sut aeth pethau. "Mae'r adborth wrth y gynulleidfa, y beirniaid a'r cystadleuwyr wedi bod yn hynod o bositif ac rydyn ni'n edrych 'mlaen nawr at y gyngerdd ym mis Hydref".




Eirlys Myfanwy Davies o Drimsaran ger Llanelli oedd enillydd Llais Llwyfan Llambed eleni. Enillodd £1,000 ynghyd â tharian gwydr.



Lowri Elen Jones, Llambed yn fuddugol ar yr emyn dan 60 oed




Enillydd y goron eleni oedd Dr D Islwyn Edwards, Aberystwyth ac sydd yn enedigol o Ffair Rhos. Bu'n gweithio gyda'r cyfryngau a chyda'r Awdurdodau Addysg. Mae'n awdur dau o lyfrau ac eisioes wedi ennill y goron yn Llambed yn 2002. Yn y llun mae plant y ddawns flodau o Ysgol Gynradd Trefilan gydag ef.



Huw Dylan Owen o Dreforys ger Abertawe oedd bardd y Gadair,.



Carys Mair Davies o Lanbadarn oedd enillydd y Gadair i rai dan 25oed. Mae Carys sydd yn un ar hugain a newydd orffen gradd yn y gyfraith a'r Gymraeg eisioes wedi ennill 13 o wobrau llenyddol.

# O’r Cynghorau Bro



**Cyngor Tref Llambed**

Y Maer: Kistiah Ramaya; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu’r Cyngor ar 28 Meh 2012 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i’r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Dave Smith.

Estynwyd cydymdeimlad i Dorothy Williams ar farwolaeth ei mam ac i Selwyn Walters ar farwolaeth ei dad yng nghyfraith.

Plismona - Adroddodd y Maer ei fod wedi trafod y bwriad i ddiddymu gwasanaeth yr heddlu ar ddesg ffrynt Gorsaf yr Heddlu yn Llanbedr PS, gyda’r Prif Arolygydd Robyn Mason a’r Arolygydd Huw Meredith. Penderfynwyd cydlynu cyfarfod rhwng cynrychiolwyr yr Heddlu, Cyngor y Dref ac eraill i wrthwynebu’r bwriad.

Nodwyd bod alcohol yn cael ei yfed ar Sgwâr Harford er bod yr ardal wedi ei dynodi’n barth di-alcohol.

Seremoni Urddo’r Maer - Cynhaliwyd y seremoni ar 1 Mehefin 2012: bu’r digwyddiad yn un llwyddiannus. Cyng Kistiah Ramaya (Maer 2012-13); Cyng. Dorothy Williams (Dirprwy-Faer 2012-13)

Rhannu Cwpanau - Adroddodd Y Maer iddo rannu cwpanau ar 4 achlysur i blant yr ardal. Mae oddeutu 80 cwpan yn weddill o’r cyfanswm o 500. Bydd y Cyngor yn gwneud cais am ad-daliad TAW a oedd wedi ei gynnwys ym mhris y cwpan.

Llyfryn i Ymwelwyr - Mae’r Cyng Rob Phillips wedi diweddaru’r Llyfryn a bydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn argraffu’r llyfryn ar ran y Cyngor Tref. Holwyd tybed a fyddai’r Cyngor Tref yn fodlon bod yn gyfrifol am stondin yn ystod y Ffair Fwyd ar 28 Gorffennaf er mwyn hybu’r dref. Roedd y stondin wedi ei logi eisoes. Cynigiodd pedwar eu gwasanaeth. Bydd yr arddangosfa’n cynnwys hen luniau a gwybodaeth i ymwelwyr am lwybrau cerdded a llwybrau seiclo ag ati yn yr ardal.

Sefydlu Ficer newydd - Bydd y ficer newydd sef y Parch. Chris Webb yn cael ei sefydlu gan Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Wyn Evans, Nos Lun 2 Gorffennaf am 7.00pm yn Eglwys San Pedr Llanbedr PS. Bydd y Cyng. Hag Harris yn cynrychioli’r Cyngor yn absenoldeb y Maer a’r Dirprwy-Faer.

Ymatebion gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda - Parthed agor y Feddygfa yn Llanbedr PS am awr neu ddwy dros y penwythnos: - Mae ymholiad y Cyngor wedi ei drosgwlyddo at sylw Meddygfa, Llanbedr PS. Yn yr ateb a dderbyniwyd nodwyd nad oedd unrhyw Ganolfannau Iechyd Meddyg Teulu ar agor dros y penwythnosau; yr hyn oedd ar gael oedd Gwasanaeth Allan o Oriau. Gellir derbyn y gwasanaeth hwn drwy ffonio rhif y feddygfa gan fod llinell ffôn y feddygfa wedi ei chysylltu â’r gwasanaeth. Y mae GIG Uniongyrchol (NHS Direct) ar gael 24 awr y dydd ac yn cynnig cyngor ar faterion meddygol (Ffôn: 08454647) ac y mae’r fferyllfa hefyd yn darparu gwybodaeth.

Parthed agor Siop y Fferyllydd am awr neu ddwy ar fore Sul yn Llanbedr PS: Dan Rheoliadau Fferyllol y GIG, mae’n ofynnol bod y Fferyllfa ar agor 40 awr yr wythnos i gyd-fynd, gan amlaf, ag oriau’r Feddygfa. Os oes angen oriau ychwanegol gan y GIG, mae tâl am y gwasanaeth hwnnw sef £168.95 yr awr ar gyfer y Sul. Y mae fferyllfeydd mwy eu maint megis Boots ar agor yn aml am 6 awr ar y Sul ar sail masnachol ac nid yw’n ofynnol i’r GIG wneud unrhyw daliadau. Ar hyn o bryd mae 12 fferyllfa yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ar agor ar y Sul sef Aberystwyth, Rhydaman, Caerfyrddin, Hwlffordd, Llanelli a Dinbych y Pysgod. Mae gan y trefi hyn boblogaeth sylweddol ac o ganlyniad lleolir Gwasanaeth Allan o Oriau ynddynt. Mae gwasanaeth am gyfnod o un awr yn cael ei gynnig ar gylchres yn Llandysul ar ddydd Sul fel rhan o’r Gwasnaeth Allan o Oriau.

**Cyngor Tref Llambed**

Y Maer: Kistiah Ramaya; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams.

Cyfarfu’r Cyngor ar 26 Gorff 2012 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan. Croesawyd yr aelodau i’r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Derek Wilson.

Plismona - Nodwyd bod alcohol yn cael ei yfed ar Sgwâr Harford er bod yr ardal wedi ei dynodi’n barth di-alcohol.

Mynegwyd pryder parthed yfed gwrthgymdeithasol yng nghyffiniau Parc-yr-Orsedd sydd hefyd wedi ei chynnwys o fewn y Parth Di-Alcohol. Mae’r broblem wedi mynd o ddrwg i waeth ers gosod y ffens bren sy’n cydredeg â Heol y Gogledd, gan nad yw’r diotwyr bob amser yn weladwy o’r stryd, bellach.

Cynllun Balchder Pentrefi - Cysylltodd Elsie Dafis â Tai Ceredigion parthed y cais am gymhorthdal ar gyfer y palmant ym Mharcyfelin. Mae 2 gyfarfod safle wedi eu cynnal gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion a Thai Ceredigion ac y mae trafodaethau’n parhau parthed ariannu’r Cynllun. Bydd y Gyngh. Elsie Dafis yn mynychu cyfarfod pellach ar y 27ain o Orffennaf.

Dathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines - Y mae oddeutu 80 cwpan yn weddill. Bydd y cwpanau hyn yn cael eu cynnig i aelodau’r cyhoedd.

Llyfryn i ymwelwyr - Llyfryn ydy’r enw a glustnodir ar gyfer y ddogfen bellach a luniwyd gan y Cyngh. Rob Phillips. Y mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, yn argraffu 1,000 o lyfrynnau ar ran y Cyngor Tref. Disgwylir iddynt fod ar gael erbyn y Ffair Fwyd 28 Gorffennaf.

Basgedi Crog - Mae aelodau o’r Siambr Fasnach wedi cyfrannu/ noddi basgedi i’w defnyddio yn y dref. Roeddent am i’r cyngor sicrhau bod popeth yn iawn o ran yswiriant atebolrwydd.

Arolwg o’r Dref: Trefnir cyfarfod ym mis Awst parthed yr arolwg o’r dref ac i nodi problemau traffig, goleuadau stryd a phalmantau ayyb.

Parcio - Adroddwyd bod y car glas wedi ei barcio’n barhaol ar fynedfa Lôn Picton (ger Stryd y Bont) ac yn parhau’n berygl i ddefnyddwyr cadair-olwyn a chadair wthio: Penderfynwyd tynu sylw’r Cyngor Sir at hyn.

**Cyngor Bro Llanllwni**

Cadeirydd: Tom Bowen; Clerc: Eirlys Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans

Cyfarfu’r Cyngor ar 9 Gorffennaf 2012 yn Neuadd Gymundol Llanllwni

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i’r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad â Tom Jones ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar. Diolchwyd hefyd i’r aelodau a fu’n helpu i baratoi’r tân ar y mynydd.

Croesawyd y cynghorydd newydd, sef Dewi Davies, i’w gyfarfod cyntaf. Diolchwyd i’r clerc am ei gwaith taclus bob amser.

Y Cae Chwarae: Cadarnhawyd bod y maes chwarae â’r adnoddau wedi cael eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Y mae’r gwaith o beintio’r ffens o amgylch y cae wedi ei gwblhau.

Dathliad Diemwnt y Frenhines: Cyflwynwyd cwpanau i ddisgyblion yr ysgol gan Tom Bowen ac Emrys Evans.

Gwefan y plwyf: Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am wefan Llanllwni a phenderfynwyd gan yr aelodau bod y Cyngor Bro yn talu am gynnal y wefan yn flynyddol.

MAPLYFR YSTAD HERBERT EVANS, Y DOLAU - Yn ddiweddar daeth copi o faplyfr (1785) ystad Herbert Evans (c. 1744-1787), Y Dolau, Llanybydder, Sir Gaerfyrddin, i blwyf Llanllwni yn dilyn cyfnod maith mewn archif breifat yn Hampshire.

Mapiau o ffermydd yn Llanllwni a oedd yn rhan o ystad Herbert Evans, yw prif gynnwys y llyfr. Yn ddiweddarach dyma ystad teulu Jervoise yn nyffryn Teifi. Mae’r mapiau’n dangos ffiniau caeau pob fferm unigol ac yn cofnodi enwau’r ffermydd a oedd yn eiddo i’r ystad ac enwau’r ffermydd cyffin ynghyd ag enwau’r tirfeddianwyr cyffiniol. Rhoir enwau’r caeau, eu maint a’r defnydd a wnaed ohonynt.

Yn yr un gyfrol, ceir cyfres o fapiau diweddarach (1859) o ffermydd ym mhlwyf Llanybydder. Ceir un map diweddarach eto, o bosibl, a hwnnw’n cofnodi enwau caeau’r Red Lion a Tirbach ger Cwrtnewydd (neu Newcourt, chwedl y mapiwr) yng Ngheredigion. Mae’n ymddangos bod y maplyfr hwn wedi’i ddefnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys yn 1852.

Cylch Meithrin Llanllwni: Derbyniwyd cais i ddefnyddio’r Cae Chwarae yn ystod gwyliau’r haf i gynnal sesiynau Campau’r Ddraig i blant y pentref, ac i ddatblygu adnoddau’r cae chwarae. Nid oedd gwrthwynebiad gan yr aelodau, ac yr oeddent yn barod i gydweithio â’r Cylch Meithrin i sicrhau bod y cae yn cael ei ddefnyddio’n amlach yn ystod y flwyddyn.

Mynydd Llanllwni: Yr oedd llawer o bryder ynglŷn â’r hawliau oedd gan berchnogion ar fynydd Llanllwni yn dilyn ymddangosiad haid o byfflos yno yn ddiweddar. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a’u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 10 Medi 2012 am 8yh.

# MiS y PaPUr NewYDD

**Colofn Dylan Iorwerth**

**Tri gair mawr yr haf**

I lawer ohonon ni, mae'r haf yn golygu tri pheth ... Sioe, Steddfod ac arholiadau. A glaw, wrth gwrs, ac, efallai, os yden ni'n lwcus, ychydig o wyliau.

Am unwaith, mi gafodd y ddwy ŵyl fawr well tywydd na'r disgwyl – y Sioe'n rhyfeddol o lwcus a'r Eisteddfod yn cael haul ar ôl dechrau digon diflas.

Os oedd y ffigurau swyddogol yn datgan bod mwy o bobol nag erioed wedi bod draw yn Llanelwedd, roedd hi'n hollol amlwg fod miloedd o ffermwyr a'u teuluoedd wedi gorfod cadw draw i ddelio ag amaethyddiaeth go iawn.

Ac mae yna beryg na fydd y Sioe yr un fath eto ... os na fyddwn ni'n ofalus.

Mi ddaeth cyhoeddiad fod rhai o'r arweinwyr sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at Gymreigio'r digwyddiad yn rhoi'r gorau iddi, gan gynnwys y Prif Weithredwr, David Walters, a'r arch-sylwebydd Charles Arch. Dai Lewis hefyd yn ôl y sôn.

Cymreigio rhagor ar y Sioe sydd eisiau, nid colli tir, ac mae angen i'r bobol sy'n amlwg yn y maes wneud yn siŵr fod hynny'n digwydd. Eleni eto, roedd cyfnodau yn y prif gylch, er enghraifft, lle'r oedd y Gymraeg yn brin.

Er bod yr ymwelwyr i'r Sioe yn dod o bob man a phob cefndir, cymunedau amaethyddol cefn gwlad ydi asgwrn cefn y Sioe o hyd a dyna'r ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn parhau'n iaith gyffredin yn y gymdeithas.

Mae yna ddigon o bobol amlwg yng Ngheredigion i fynnu fod gwaith y blynyddoedd diwetha'n cael ei ddatblygu ymhellach a fod y Gymraeg yn cael ei lle teilwng yn nigwyddiad mwya'r genedl.

*******************************

Mewn ffordd ryfedd, Eisteddfod leol oedd un Bro Morgannwg eleni – bron na allech chi ei galw hi'n Eisteddfod y Smotyn Du neu Clonc.

O'r diwedd, mi gafodd Iolo Morganwg ei le dyledus efo darlithoedd a theithiau a nosweithiau barddonol i gofio amdano. Ac, yn sgil hynny, yr Undodiaid Cymraeg.

Hyd yn oed heddiw, ychydig o bobol sy'n gwybod yn union be ydi'r enwad bach hynod yma sy'n dal i gadw'i fflam ynghynn ac sydd â'i gadarnle yn ardal Clonc.

Unwaith y byddan nhw'n gwybod, mae'n rhyfedd faint o bobol o bob rhan o Gymru sy'n dweud eu bod nhw'n cydymdeimlo ac yn gweld gwerth yn y rhyddid meddwl a'r gwir personol.

Ar sawl ystyr, mae'r oes yma'n debyg i oes Iolo ei hun – yn llawn darganfyddiadau newydd sy'n siglo hen syniadau ac yn chwalu gallu pobol i arddel yr hen gredoau'n llythrennol – ac mi allai Undodiaeth gynnig ateb i lawer.

Ond, os amaeth ydi calon y Sioe, cystadlu ydi calon yr Eisteddfod ac, o blith y llwyth enillwyr lleol, mae'n rhaid rhoi'r wobr unwaith eto am y dathlu gorau i ferched y llefaru.

Mae Parti Llefaru Sarn Helen bellach wedi troi'n Gôr Llefaru ond mae'n debyg nad ydyn nhw wedi anghofio be ydi parti chwaith!

*******************************

A'r arholiadau ... a'r dadlau blynyddol amdanyn nhw. Ydyn nhw'n mynd yn haws? Ydi'r marcio'n deg?

Efallai bod yr holl drafod syrffedus yn arwydd o un o'r problemau – fod llawer gormod o sylw'n cael ei roi i'r union arholiadau yma, ar draul pethau pwysicach.

Mae natur yr arholiadau wedi newid – mesur cyrhaeddiad y maen nhw bellach, hyd y gwela' i ... dangos fod disgyblion wedi cyrraedd gris arbennig.

Y peryg ydi mai dyna'r cyfan – does dim gwobr i ysgolion neu unigolion sy'n mynd ymhellach. Yn ddigon naturiol, mae athrawon yn canolbwyntio ar gael y plant i gyrraedd y grisiau penodol – oherwydd bod gwleidyddion a'r cyfryngau, a ninnau, yn gwneud cymaint o ffys amdanyn nhw.

Oes y targedi ydi hon mewn pob math o feysydd gwahanol. Mae targedi'n iawn, os nac ydyn nhw'n ben draw ynddyn nhw eu hunain.

Ond trwy'r cyfan, mae'n rhaid llongyfarch y bobol ifanc. Nid nhw sydd ar fai am wiriondeb pobol hŷn. Ac, fel y bydd rheolwyr pêl-droed yn ei ddweud, allwch chi ddim ond chwarae yr hyn sydd o'ch blaen.

# Yn y Gegin gyda Gareth

**"Mwynhau Bwydlen Mis Medi"**

Braf cael bod nôl yng nghegin 'Clonc' ar ôl saib yr Haf. Mae wedi bod yn Haf prysur yng nghegin Gareth wrth i mi ddiddanu llawer o fudiadau yn y gegin adre ac hefyd y cynulleidfaoedd yn y Ffeiriau Bwyd.

Ar ddiwrnodau gwlyb yr Haf yma, edrychaf allan drwy'r ffenest gan ddiolch fy mod yn sych ac yn gynnes yn y gegin wrth droi'r jam a photio'r picl.

Mae'r Hydref yn dod â chnwd o rysetiau newydd i'r gegin – felly gwnewch y gorau o gnydau'r Hydref, a phwy a ŵyr, efallai y cawn Haf Bach Mihangel bendigedig i fwynhau bwydlen Mis Medi yn yr ardd.

Pob hwyl,
*Gareth*

**Porc gydag Afal a Mwstard**



Cynhwysion
- Llond un llwy fwrdd o olew
- 3 afal bwyta
- Un ffiled o borc wedi'i sleiso
- 200 ml o stoc
- Llond un llwy fwrdd o fwstard grawn cyflawn
- Llond un llwy fwrdd o saets (sage)
- Un pot o creme fraiche

Dull
1. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio. Torrwch yr afalau yn ddarnau a gwaredwch yr hadau, coginiwch am tua 10 munud nes eu bod wedi meddalu.
2. Dewch â nhw o'r badell a ffriwch y porc am tua 2 funud bob ochr. Ychwanegwch y stoc a'r mwstard a choginiwch am tua 5 munud. Rhowch yr afalau a'r saets yn y gymysgedd i gynhesu. Cymysgwch y creme fraiche gyda'r cynhwysion. Gwienwch gyda thato.


**Treiffl Tymhorol (digon i bedwar)**



Cynhwysion
- Un cacen Madeira wedi'i giwbio.
- 200 gm o fwyar
- 3 eirinen wedi'u torri'n ddarnau
- Un pot 500gm o gwstard
- 300 ml o hufen dwbwl
- Llond 2 lwy fwrdd o gnau almond wedi'u tafellu
- Ychydig wirodydd o'ch dewis chi – brandi/sierri

Dull
1. Coginiwch y mwyar a'r eirin mewn sosban gyda siwgwr i flasu mewn 2 llond llwy fwrdd o ddŵr; gadewch i oeri.
2. Rhannwch y gacen rhwng 4 gwydr a gwlychwch â'r gwirod, yna rhannwch y compot ffrwythau.
3. Cymysgwch yr hufen a'r cwstard a rhowch dros y ffrwythau.
4. Rhowch yn yr oergell – yna cyn gwaeni, sgeintiwch â'r cnau.

**Tartren Tomato a Chaws Gafr**



Cynhwysion
- 1 pecyn 375gm o puff pastry wedi'i rowlio
- 1 ŵy
- 125 gm o gaws gafr
- 6 tomato wedi'u sleiso
- 1 llond llwy fwrdd o 'Pesto'.

Dull
1. Gosodwch y toes ar dun pobi a gwnewch fframwaith â chyllell o amgylch yr ochr. Brwsiwch â'r ŵy a phobwch am 15 munud.
2. Gwasgarwch y 'Pesto' dros ganol y toes ac yna haenen o domatos gyda'r caws wedi gratio drosto. Nôl i'r ffwrn am 8 munud – yna gwaenwch.




Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

# Cwmsychpant

**Sioe Cwmsychpant 2012**

Ar ddydd Sadwrn, Awst 11eg cynhaliwyd Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni, bydd yr elw yn mynd tuag at brynu peiriant ECG ar gyfer Ysbyty Glangwili. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei drosglwyddo nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bu'r Treialon ymlaen yn gynnar iawn y bore tan hwyr ac roedd y cynnyrch a welwyd yn y babell o safon uchel a'r babell yn orlawn. Cynhaliwyd mabolgampau i'r plant ac roedd yr arddangosfa o hen beiriannau yn werth i'w gweld.

Ein Llywydd eleni oedd Mrs. Nancy Davies, Tyngrug Uchaf a braf iawn oedd cael ei chwmni gyda'i theulu yn bresennol. Am dri o'r gloch cafwyd araith bwrpasol gan Mr. Dan Davies (mab Nancy Davies) a mawr yw ein diolch am ei rhodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw.

I ddod â diwrnod bythgofiadwy i ben cafwyd cwmni Ffushanti. Daeth cynulleidfa niferus i wrando a mwynhau eu perfformiad arbennig.

Rhestr enillwyr y Dydd:

**Treialon Cŵn Defaid - Cenedlaethol Agored** - Meirion Jones gyda Jess; **Nofis Cenedlaethol** - John Whitton gyda Ben; **Agored De Cymru** - Llyr Evans gyda Zac; **Nofis De Cymru** - Anne Blonkfist gyda Tra; **Gwinoedd** - Megan Richards, Bryn Deri Abereron; **Cyffeithiau** - Lloyd Edwards, Maesceio, Penrhyncoch; **Coginio** - Wendy Davies, Caerwenog, Cwmsychpant; **Gwaith Llaw** – Rhannwyd y wobr eleni rhwng:- Margaret Jones, Caeglas, Cwrtnewydd a Sally Rees, Ty Pair, Llanarth; **Crefft** - Dai Davies, Brynerw, Ciliau Aeron; **Ffyn** - Arwyn George, Bryn, Manordeilo; **Ffotograffiaeth** - Nia Pollock, Brynmeddyg, Cwmsychpant; **Arlunio Plant Bl. 2 a thano** - Siwan Davies, Ysgol Pontsian; **Bl. 3 a 4** - Arwel Williams, Ysgol Cwrtnewydd; **Bl. 5 a 6** - Haylie Cook . Ysgol Cwrtnewydd; **Adran Plant 8 a thano** - Lleucu Rees, Caeronnen, Penffordd; **9 a than 12** - Catrin Rosser, Gwel-Cwm-Teifi, Brynteg; **12 a than 17** - Ffion Jenkins, Ty Llwyd, Maestir, Llanbed; **Adran Blodau** - Erika Davies, Felinban, Capel y Groes; **Celfyddyd Blodau** - Rita Dipple, Rallt, Cwmsychpant; **Cynnyrch Gardd** - Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn; **Adran Geffylau** - Pencampwr yr Adran Geffylau - Dai Davies, Clogfryn, Aberaeron; **Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant** - Rhannwyd y wobr eleni rhwng:- Phoepe Prater, Penlanfawr, Cwrtnewydd a Meredydd Davies, Crudybarcud, Cysgod y Gaer, Cribyn; **Adran Ddefaid Pencampwr Croesfridio** - Iwan Evans, Parcyrhos, Blaencwrt, Gorsgoch; **Taleb gwerth £25** - Ronald Davies, Meinigwynion Mawr, Gorsgoch.



Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen a enillodd wobr gyntaf yn y Gystadleuaeth Arwain i blant.

Dymuna holl bwyllgor Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniasant i wneud sioe eleni eto yn un llwyddiannus.

**Gwellhad Buan**

Yn ystod y misoedd diwethaf yma bu Lewis Davies, Cilmeri yn cael triniaeth yn ysbyty Glangwili ac mae'n hyfryd iawn i weld Mrs Nancy Davies, Grugwen ar wellhad yn dilyn ei chyfnod o salwch.

**Taith Gerdded**

Bu Capeli'r Smotyn Du yn cynnal taith gerdded yn ystod dechrau mis Gorffennaf ac fe ddaeth pawb nôl i Gapel y Cwm lle mwynhawyd paned o de blasus allan yn yr awyr agored.

**Trip Ysgol Sul**

Aethpwyd eleni i Bwll Nofio LC2 yn Abertawe ar ddydd Sul, Gorffennaf 15fed. Cafwyd dwy awr hapus yn y pwll gyda phawb o'r un lleiaf i'r hynaf yn mwynhau. Stopiwyd nôl ym Mhont Abraham i gael hufen iâ ar y ffordd adref.

**Pasio Prawf Gyrru**

Ar ddiwedd y mis pasiodd Carwyn Davies, Caerwenog ei brawf gyrru car a hynny cwta pythefnos ar ôl dathlu ei benblwydd yn 17 oed. Llongyfarchiadau Carwyn a chymer ofal ar y ffordd fawr.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

**Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.**

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?*
*Hoffech chi weinyddu'r wefan?*
*Neu beth am waith dylunio?*
*Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.*
*Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

**HYSBYSEBU YN CLONC**

*"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."*
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach.
£40.00 am chwarter tudalen.
£60.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk


Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

# Arwerthiant Defaid Llanwenog




Y pencampwr yn yr hyrddod ac yn ennill Cwpan Arian oedd oen hwrdd o eiddo Gareth, Wendy ac Iwan Evans, Parcyrhos, Blaencwrt.



Enillwyd Cwpan am y pen gorau o bump dafad gan Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd

Enillydd y gystadleuaeth y tywysydd ifanc oedd Gethin Morgans, Glwydwern, Gorsgoch.

# Sioe Llanybydder





Cactus o eiddo Mr Gwyn Williams, Llanybydder a ddyfarnwyd y gorau o blith holl gystadlaethau y Blodau. Enillodd y cwpan am y marciau mwyaf yn yr Adran Flodau yn ogystal â derbyn Tlws am y nifer fwyaf o wobrau cyntaf yn y Babell.



Yn yr Adran Goginio cafodd quiche o waith Bethan Williams, Llanybydder ei dyfarnu fel y gorau o'r holl gynnyrch coginio.

# C.Ff.I. Ceredigion

Daeth yr haf ac aelodau'r CFFI dal i fod yn brysur! Ar ôl noson hwylus o chwaraeon yn Llambed daeth Troedyraur yn 2il a Phontsian yn 1af. Aeth y timau buddugol ymlaen i chwarae yn niwrnod chwaraeon Cymru a gafodd ei gynnal yn Llambed am y tro cyntaf eleni. Canlyniadau'r dydd oedd Dodgeball Bro'r Dderi 1af; Hoci cymysg Pontsian 2il; Pêl-rwyd Llanwenog 3ydd. Da iawn i bawb.

Yn arwain i fyny i'r Sioe Frehninol cafwyd noson o rygbi yn Aberaeron gyda Pontsian yn 1af, Caerwedros yn 2il a Troedyraur yn 3ydd. Dewisiwyd tîm sirol i fynd ymlaen i'r sioe fawr.

Cynhaliodd y Fforwm Ieuenctid noson o It's a Knockout llawn hwyl gyda Phontsian yn ennill gyda help Robert - aelod tramor o'r Iwerddon a oedd draw yn blasu bywyd cefn gwlad Ceredigion!

Cafwyd wythnos lewyrchus iawn yn y Sioe Frenhinol eleni eto a dyma'r canlyniadau: **Arddangosfa Ffederasiwn** – 1af: Penparc. **Canllaw Bras i Leoliad Mis Mêl** – 1af: Felinfach. **Cneifio - 2il:** Ceredig Lewis, Llangwyryfon; a Rhys Lewis, Trisant 2il; **Priodas Ffug** – 3ydd: Llanddewi Brefi. **Arddangosfa'r Prif Gylch** – 2il: Pontsian; **Cystadleuaeth yr Aelodau – 1af** (Crefft, Coginio a Blodau). **Crefft** – 1af: Gareth Jenkins, Talybont. **Coginio** – 3ydd: Delyth Evans a Gethin Morgan, Bro'r Dderi; **Blodau** – 2il : Gwenan Davies, Mydroilyn. **Barnu Moch Cymreig** – 3ydd; **Dawnsio** – 4ydd: Pontsian. **Barnu Defaid Texel** – 7fed : Aled Llŷr Thomas, Talybont; 2il; Dyfrig Williams cydradd 2il. **Cantorion Priodas** – 1af: Ellen Jones, Troedyraur 1af - Unigolyn a Grŵp Troedyraur yn 3ydd. **Tynnu'r Gelyn** – 3ydd: Bechgyn Llanwenog 3ydd a Ladis Pinc, Llanddewi 5ed. Coedwigaeth – 3ydd: Emyr a Dilwyn Harries, Llanddeiniol. **Barnu Gwartheg Holstein** – 4ydd: Ceris James, Bryngwyn 3ydd; Ifan Wilson, Penparc 3ydd. **Ffensio** - 1af: Rhodri Hughes, Emyr a Gareth Harries, Llanddeiniol Rygbi – 2il

Hoffem ddymuno adferiad buan i Rhys Richards a gafodd anaf wrth chwarae Rygbi ar y dydd Mercher. Gwellhad buan i ti.

Dyfarnwyd mai Ceredigion enillodd y mwyaf o farciau yn yr Adran Beirniadu Stoc yn y tair cystadleuaeth ac yn ennill tlws coffa R.L. Jones. O ganlyniad i'r holl lwyddiannau hyn sicrhawyd bod Ceredigion yn gydradd gyntaf gyda Sir Maesyfed gyda 90 o bwyntiau ac yn ennill cwpan NFU. Canlyniad gwych felly a llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau.

Canlyniadau clwb 200 mis Gorffennaf 1af – Huw ac Angharad Williams, Ael y Bryn, Llanon, 2il – Hugh ac Ann Tudor, Tynberllan, Llanilar, 3ydd – Rhys Evans, Y Cwm, Parcllyn, Aberteifi.

Yng nghyfarfod mis Gorffennaf y sir penderfynwyd ar ôl trafodaeth hir taw dyddiad rali CFFI Ceredigion yn 2013 bydd y 15fed o Fehefin yn ardal Talybont, felly cofiwch gadw'r dyddiad yma yn rhydd!

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 9 | 2 | 5 | | 7 |
| | | | | | | 1 | 6 | |
| 5 | | | | | | 3 | | |
| | | | | 2 | 9 | 8 | | |
| 4 | 7 | | | 8 | | | 1 | 9 |
| | | 8 | 1 | 4 | | | | |
| | | 9 | | | | | | 5 |
| | 5 | 7 | | | | | | |
| 2 | | 1 | 8 | 7 | | | | |

**Atebion Swdocw mis Gorffennaf:**

Llongyfarchiadau i: **Letty Williams, Meinigwynion, Gorsgoch**, ac i bawb arall am gystadlu: James Prytherch, Caerwys, Fflint; Delyth Edwards, Deluan, Llansawel; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder a Shirley Walker. Heol-y-Gaer, Llanybydder.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 8 | 1 | 6 | 7 | 4 | 9 | 3 | 2 |
| 9 | 4 | 3 | 8 | 1 | 2 | 7 | 5 | 6 |
| 6 | 2 | 7 | 3 | 5 | 9 | 8 | 1 | 4 |
| 3 | 5 | 4 | 9 | 2 | 6 | 1 | 7 | 8 |
| 1 | 6 | 9 | 7 | 3 | 8 | 2 | 4 | 5 |
| 2 | 7 | 8 | 1 | 4 | 5 | 6 | 9 | 3 |
| 8 | 3 | 5 | 2 | 9 | 7 | 4 | 6 | 1 |
| 4 | 9 | 6 | 5 | 8 | 1 | 3 | 2 | 7 |
| 7 | 1 | 2 | 4 | 6 | 3 | 5 | 8 | 9 |

# Llanwnnen

**Priodas Dda**

Dymuniadau gorau i Lianne Thomas, 5 Bro Cadarn a Neil Parker ar eu priodas yn Eglwys St. Lucia, Llanwnnen yn ystod yr haf. Pob hapusrwydd i'r dyfodol.

**Pen-blwydd Hapus**

Llongyfarchiadau i Picton Jones, Drefach ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 28 Awst. Gobeithio y cewch iechyd am flynyddoedd eto i fynychu'r sioeau.

**Dewin y Geiriau**

Llongyfarchiadau gwresog i Dylan Iorwerth, Pen y Nant ar ennill cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg am ddilyniant o gerddi mewn cynghanedd gyflawn ar y pwnc 'Llanw'. Mae Dylan bellach yn un o nifer fechan sydd wedi cyflawni'r gamp driphlyg gan iddo ennill y Goron yn 2000 a'r Fedal Ryddiaith yn 2005. Gobeithio y bydd yr awen yn parhau i lifo.

**Gwellhad Buan**

Danfonwn wellhad buan i Dylan Thomas, Castell Du a gafodd ddamwain yn ddiweddar. Brysia wella.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwys â theulu'r diweddar Mr Ben Jones, Alltfawr a theulu'r diweddar Mr David John Jones, 3 Bro Grannell yn eu colled.

**Capel y Groes**

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Groes brynhawn Sul 21 Hydref am 3.00 o'r gloch. Delyth Morgans Phillips, Llanbedr Pont Steffan fydd yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

**Llongyfarchiadau**

Mae'r holl ardal yn ymfalchïo yn llwyddiant Dylan Iorwerth, Penynant ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg eleni.

Mae Dylan yn un o bedwar yn unig yn hanes yr eisteddfod sydd wedi ennill y dair brif wobr sef y Goron, Y Fedal Ryddiaeth ac yn awr y Gadair, camp arbennig iawn. Cynhelir cyfarfod yng Ngwesty'r Grannell nos Wener, 7fed o Fedi i'w anrhydeddu. Ceir eitemau gan dalentau lleol ac hefyd disgwylir nifer o brifeirdd yno i'w longyfarch.


Gweler manylion pellach ar y posteri sydd wedi eu dosbarthu ar hyd yr ardal.



Picton Jones, Llambed gyda'i bencampwr, Bantam Mawr o blufyn meddal – un o'i 15 gwobr gyntaf.

# Llanllwni

**C.Ff.I Llanllwni**



Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r clwb wedi cael cryn dipyn o hwyl yn paratoi a chystadlu yn ein gweithgareddau codi arian dros yr haf. Cynhaliwyd Helfa Drysor ar y cyntaf o Fehefin yn dechrau o neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau ac yn gorffen yn y Talardd, Llanllwni. Diolch i deulu Penllain am wneud y cwrs eleni a llongyfarchiadau i deulu Pantglas am ddod yn fuddugol ar ddiwedd y nos.

Ar nos Wener y trydydd o Awst cynhaliwyd noson 'It's a Knockout' y clwb ar gaeau Abercwm. Braf oedd gweld 6 tîm yn cystadlu lle cafwyd cryn dipyn o hwyl a sbri yn ganol y dŵr, fflwr a'r sebon!! Llongyfarchiadau i Aled Jones, Hefin Jones, Ifor Jones, Ben Duffty a Gary Davies am ddod i'r brig.

**Penblwydd Arbennig**

Dathlodd Mrs Lilian Griffiths, Ffynnon ddrain ei phen-blwydd yn 90 oed yn ystod mis Awst.

**Pwyllgor yr Henoed**

Trefnwyd y trip blynyddol i San Ffagan pan gafwyd diwrnod pleserus iawn a mwynhau pryd ardderchog o fwyd ar y ffordd adref yn Nhafarn y Deri yn Llanedi. Yr unig bryder yw fod yr ychydig aelodau sydd ar y Pwyllgor i gyd yn bensiynwyr neu'n agos i gyrraedd oedran ymddeol. Felly, os nad yw rhai o'r bobl ieuengach yn dangos diddordeb i barhau y Pwyllgor, y mae debyg mai dyma y trip olaf ac hefyd na fydd arian yn cael ei ddosbarthu ar ôl y Nadolig yma. Gobeithio felly, daw criw o bobl ifanc ymlaen i barhau y traddodiad.

**Diolch**

Dymuna Tom, Maesnonni ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn ar achlysur ei benblwydd yn 80 oed.

**Eglwys Sant Luc**

Bu ein Noson Goffi flynyddol yn ystod mis Gorffennaf yn y Neuadd Gymunedol, ac fe'n bendithiwyd a thywydd sych! Agorwyd y noson eleni gan Mr.Islwyn Jones,Penlanymor, gŵr sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn New Inn. Roedd ei fab, Breian Teifi wedi dod yn gwmni iddo, ac fe siaradodd yn bwrpasol iawn ar ran ei dad.Fe gofiodd Mr.Jones yn hael iawn am gronfa'r Eglwys.

Fe werthwyd deunydd y stondinau yn gyflym iawn,ac roedd y barbeciw yn brysur iawn dan ofal Dave Abblett. Diolch yn fawr iddo am ei wasanaeth.

Mae hon yn noson gymdeithasol,gartrefol bob blwyddyn,a braf yw gweld pob oedran yn mwynhau gyda'i gilydd.

Aeth plant yr Ysgol Sul ar ei gwibdaith flynyddol i Oakwodd a Dinbych y Pysgod, ac fe ymunodd Ysgol Sul New Inn gyda nhw. Eto roedd y tywydd yn ffafriol.

**Wyr bach newydd**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Andrew ac Eirlys, Rhoswen ar gael wyr bach - mab bach i Lowri a Tom, Hendryd, Maestir, Llambed.


**YSWIRIANT FUW**

Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai

*Arbenigedd lleol*
*Polisïau at bopeth*
*Prisiau cystadleuol*

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Dewch i drafod eich anghenion gyda

**Alan Jacob** 07968 371823 / 01570 481361

neu

**Gwion James** 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

*Mwnci ffwnci*



Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

**Sioned Green** a **Mared Jones**
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
☎01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwersi Piano**

gan athrawes brofiadol



Cysyllter ag
**Ann Bowen Morgan**
01570 422413

**DAI MECANIC**

Arbenigwr mewn:

- Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
- Cynnal a chadw cyfarpar pŵer

**DAI JONES**
**07791 840 500**

Cefn Hafod Gorsgoch
Cwrw Da Cwmni Da

01570 434238 07767 676348

**Clwb Cyri**
Bob nos Wener 6.30-8.30yh
£5 am gyri o'ch dewis, reis, sglodion a bara naan
Take Away neu bwyta mewn

**Cwis**
Nos Iau cyntaf bob mis
8 o'r gloch
Bwyd yn rhan o'r noson
Timau: dim mwy na 6

# Llanybydder

**Eglwys Sant Pedr Llanybydder**

Roedd Gwasanaeth y gair mis Awst yng nghofal Susan a Jean. Thema'r gwasanaeth oedd hapusrwydd.

Croesawyd pawb i'r gwasanaeth gan Jean, a soniodd fod llawer gyda ni i fod yn hapus amdano ar hyn o bryd, gan fod y Gemau Olympaidd yn Llundain wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda llawer o fedalau pwysig yn dod nôl i Gymru, ac hefyd fod Dylan Iorwerth, ennillydd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morganwg yr wythnos diwethaf yn byw yn lleol.

Darllenwyd barddoniaeth pwrpasol gan Bethan, Kay a Val.

Cafwyd stori gan Susan am Sam, yr aderyn du a oedd wastad yn ddiflas. Ond yn dilyn cyngor gan y Gwdihw doeth a eglurodd iddo fe yr effaith a gai ei ddiflastod ar eraill penderfynodd yr aderyn du fod yn hapus.

Hapusrwydd sydd yn dod o garu rhywun a chael ein caru nôl, yn ôl gweddïau Jean.

Roedd gan Heather a Vicky eiriau pwrpasol iawn yn eu hanerchiadau am hapusrwydd wrth gyfeirio at dyfnder cariad rhwng dau a'r hapusrwydd y daw palnt i'n bywydau.

Roedd anerchiad y Ficer yn sôn am redeg ar ôl swigod, a'r ffaith fod yr hapusrwydd a ddaw wrth chwythu swigod ond yn parhau am eiliadau. Yn ôl Iesu, os ydych chi am ffeindio hapusrwydd, peidiwich rhedeg ar ôl swigod, edrychwch ar y bobl o'ch cwmpas, ac oddi wrthynt hwy y cewch chi hapusrwydd.

Hyfryd roedd cael côr o ferched ifanc yn canu "Os wyt ti'n hapus gad I'm wybod..."



Roedd Sasha, Elain, Nia, Eli a Sophie yn cymeryd rhan, a da iawn chi ferched am ganu mor arbennig! Diolch i rieni a theuluoedd y merched am ddod i gefnogi nhw.

Nos Wener, 17eg Awst cynhaliwyd taith gerdded yr Eglwys. Roedd y tywydd yn ddiflas, ond daeth 14 o bobl i gymeryd rhan. Rydym yn ddiolchgar i bawb am gymeryd rhan, casglu arian, ac i bawb a roddodd rhoddion ariannol.

Wrth gwrs rydym yn gwerthfawrogi pob ceiniog, ond rhaid yw nodi fod Heather wedi casglu dros £1000 ei hunan, a mae'r swm yma yn dal i godi!! Hollol anhygoel! Da iawn chi Heather, i ni'n llwyr gwerthfawrogi yr ymdrech arbennig rydych wedi gwneud.

Hefyd rydym wedi body n lwcus fod Susan wedi gallu sicrhau nodd £ am £ oddi wrth Banc Barclays Llambed, swm o £750. Diolch i Susan am drefnu hyn ac i banc Barclays am y rhodd arbennig yma.

Ar hyn o bryd rydym wedi casglu dros £2000, ond mae'r arian dal yn dod i mewn! Diolch i bawb.

Mae gwaith cynnal a chadw blynyddol wedi digwydd yn ystod misoedd yr Haf, diolch i Eurwyn am drefnu'r gwaith ac i bawb am ddod i gynorthwyo. Mae'r Eglwys yn edrych yn hyfryd, a gwerthfawrogwn bopeth mae pawb wedi eu gwneud i helpu.

Cofiwn at Mrs.B yng nghartref Awel Deg, Llandysul. Os ydych yn yr ardal, cofiwch alw mewn i'w gweld hi, gan ei bod hi yn mwynhau gweld gwynebau cyfarwydd.

Hefyd cofiwn at Alice Baker, sydd wedi cael llawdriniaeth ac yn aros gyda'i theulu lawr yn Llangeler. Mae Alice yn gwella'n dda, ac mi fydd hi nôl gyda ni yn yr Eglwys cyn y nadolig gobeithio.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Pybus, sydd wedi dathlu Penblwydd Priodas Diamwnt yr wythnos yma. Gobeithiwn eich bod chi wedi mwynhau'r dathlu.

Mi fydd gwasanaeth y gair mis Medi yng ngofal y Ficer, ac rydym yn edrych ymlaen at weld beth fydd ei neges hi.

**Côr Lleisiau'r Werin**

Dydd Mercher, 8fed Awst aeth llond bws o aelodau a ffrindiau côr Lleisiau'r Werin lawr i Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg.

Roedd ysgrifenyddes y côr, Catrin Castell Du, wedi methu dod gyda ni ar y trip, gan fod ei mab Dylan wedi cwympo a thorri ei goes ddiwrnod cyn y Steddfod! Goebithio ei fod yn gwella'n iawn erbyn hyn, ac y bydd nôl ar dy draed yn glou iawn.

Roedd y côr yn canu ar y llwyfan berfformio yn y prynhawn, llwyfan awyr agored gyda lle i gwpwl o gannoedd i eistedd a mwynhau eu cinio a ni'n canu!

Cannodd y côr amrywiaeth o ganeuon yn cynnwys perfformiad cyntaf o gân 'Elonwy', cân gyfansoddwyd gan Gwawr Mesydd fel anrheg penblwydd iddi.

Canwyd y gân gyda geiriau 'cantre'r gwaelod'. Hyfryd oedd canu'r gân am y tro cyntaf, gyda Gwawr yn digwydd bod yn y gynulleidfa yn ein gwylio ni. Gobeithio fod Gwawr wedi mwynhau ein perffomiad ni.

Diolch i Elonwy am ein dysgu ni, i Margaret am gyfeilio mor arbennig, ac i aelodau'r côr am ddod i'r ymarferion, dysgu'r gwaith ac am berfformio mor arbennig yn yr Eisteddfod.

Mae tymor y Sioeau wedi bod, a rhoddwn llongyfarchiadau i bob aelod o'r côr am eu llwyddianau yng nghystadleathau megis coginio yn Sioe Gorsgoch, Llanybydder a Cwmsychbant, a hefyd am eu llwyddiant yn y gwaith llaw a'r blodau.

Mae aelodau talentog iawn yn Cor Lleisiau'r Werin!

Llongyfarchiadau i holl blant a wyrion aelodau'r côr am eu llwyddiant yn eu haroliadau TGAU a Lefel A.

Llongyfarchiadau mawr i Steffan, mab Nans Bryndolau, ar ei briodas i Lowri yn ystod yr haf. Pob lwc i'r ddau ohonoch wrth i chi ddechrau ar eich bywyd priodasol.

Rydym am groesawu aelodau hen a newydd ato ni. Felly, os ydych chi yn joio canu a cael llawer o sbort, dewch i ymuno gyda Côr Lleisiau'r Werin!

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Kay ar 07866985550 neu kaydavies241@btinternet.com

**Clwb Plant Eglwys Sant Pedr Llanybydder.**

Rydym yn mynd i ddechrau Clwb plant yn yr Eglwys mis Tachwedd eleni.

Mi fydd y clwb yn cymeryd lle ar y 3ydd Dydd Sul pob mis am 11 o'r gloch yb.

Byddwn yn gweud llawer o waith creadigol, canu, actio a chael lot fowr o sbri!

Mi fydd y plant sydd yn dod bob mis i'r Clwb, yn cael mynd ar drip i weld Panto, a byddwn yn cael diwrnod hwyl yn yr Haf lle fydd gemau a bbq ar gyfer aelodau y clwb a'u teuluoedd.

Os ydych yn nabod rhywun fyddai'n mwynhau dod i'r Clwb, cysylltwch gyda Kay ar 07866985550 neu kaydavies241@btinternet.com

Neu cysylltwch gyda Susan ar 01570 480768.

Croeso cynnes i bawb!!

**Babis**

Llongyfarchiadau i Andrew Wilson ar ddod yn dadcu am y tro cyntaf cans ganwyd merch fach Gwenllian Haf i'w fab Tomos a'i bartner yn ystod yr Haf. Nith fach newydd hefyd i Steffan i'w sboilio. Yn yr un modd gor-wyres fach newydd i Graham a Doris Wilson, Heol y Gaer.

Yn ystod yr un wythnos ganwyd gor-ŵyr newydd iddynt hefyd o'r enw Arthur allan yn yr Amerig, mab bach i'w hwyres Hayleigh a'i gŵr Gavin.

**Diolch**

Dymuna Cerys [Gorlan gynt] a Gareth Lloyd, Hafancletwr, Talgarreg ddiolch o galon i bawb am y llu o gardiau, rhoddion a dymuniadau da ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Hefyd, dymuna Anthony a Meryl, Maesybarcud, ddiolch yn fawr am y cardiau, arian ag anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Arian yn ystod Mis Gorffennaf. Diolch yn fawr.

**Graddio**

Llongyfarchiadau gwresog i'r canlynnol am raddio yn ystod y misoedd diwethaf:- Rhydian Davies, Maesybarcud o Brifysgol Morgannwg, Hedydd Wilson, Glanrhyd, o Brifysgol Drindod Dewi Sant, a Menna Williams, Heol y Gaer o Brifysgol Aberystwyth. Mae'r tri yn gyn- ddisgyblion o Ysgol Gynradd, Llanybydder a Ysgol Uwchradd Llambed. Pob lwc i chi yn y dyfodol.

**Diolch**

Dymuna Paul Court, Ceincoed Hill ddiolch o galon am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd pan raddiodd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

**Ysgol Llanybydder**

Llongyfarchiadau mawr i Finlay Yates-Jones, disgybl ym mlwyddyn 5 ar ennill nifer o gystadlaethau caiac yn ddiweddar. Dymunwn pob hwyl iddo yn y dyfodol. Pwy a wyr, efallai y bydd yn ein cynrychioli yn y gemau olympaidd rhyw ddiwrnod. Dal ati!



Pob hwyl i Steffan, Nia a Rhodri yn yr uwchradd ym Mis Medi, byddwn yn gweld eu heisiau.

Croeso cynnes i'r disgyblion newydd yn yr Adran Fabanod.

**Cerdd**

Llwyddodd y canlynol yn eu harholiadau Ysgrifenedig o dan nawdd y Coleg Brenhinol.

Gradd 1 – Nia Thomas, Llys-Neuadd [teilyngdod]; Gradd 2 – Yvonne Evans, Tandderi [anrhydedd] Gradd 4 – Betsan Jones, Highview [anrhydedd].

**Dyweddiad**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Stephanie Nash a Daniel Jones Argoed ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

# Cwrtnewydd



**Mabolgampau Cwrtnewydd**

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 14eg cynhaliwyd mabolgampau Cwrtnewydd yng nghae'r ysgol. Er gwaetha'r tywydd buom yn ffodus iawn i gael prynhawn braf a llwyddiannus iawn. Daeth llu o blant, rhieni, mamgus a thadcus i fwynhau. Gallwch feddwl ein bod yn yr 'olympics' go iawn gyda'r holl gystadlu brwd! Croesawyd ein llywyddion eleni sef Mr a Mrs Emlyn a Pamala Davies, 4 Heol y Bryn, Cwrtnewydd gan Mrs Wendy Davies, Cadeiryddes Pwyllgor y Mabolgampau. Cawsom glywed am eu teulu ac am eu cysylltiadau â'r ysgol, mabolgampau a'u hamser yn byw yn y pentref. Diolchwyd iddynt am eu rhodd hael iawn.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu help a'u cefnogaeth i wneud y diwrnod yn llwyddiant eleni eto.

Dyma lun o Mr a Mrs Emlyn a Pamala Davies gyda rhai o'r plant.

**Arholiad**

Llongyfarchiadau i Naomi Fflur Long, Llysalaw ar basio Gradd 2 Piano a Gradd 1 theori gyda distinction. Da iawn ti.

# Gohebiaeth

Dyddiadau pwysig i'ch dyddiadur:

**Nos Fercher 12 Medi 2012 :**

Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith nesa yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen am 7.30y.h.

**Nos Wener 19 Hydref 2012 :**

Cyngerdd Cyhoeddi'r Ŵyl ym Mhafiliwn y Bont, gyda disgyblion Ysgolion Cynradd y cylch, Ysgol Uwchradd Tregaron ac Adrannau'r Urdd Aberystwyth a Llanbed.

**Dydd Sadwrn 9 Tachwedd 2013 :**

Gŵyl Cerdd Dant Genedlaethol Cymru ym Mhafiliwn Y Bont.

Os hoffech gyfrannu tuag at wobrau ariannol yr Ŵyl, cysylltwch ag un o'r swyddogion canlynol o'r Pwyllgor Gwaith:

Neli Jones, Glanrhyd, Pontrhydfendigaid. SY25 6EU 01974 831695 (Cadeirydd)

Dafydd Jones, Hendre Wen, Tynygraig 01974 261214 (Is-gadeirydd)

Joan Evans, Penrhos, Swyddffynnon SY25 6AW 01974 831266 (Ysgrifennydd)

Menna Jones, Tynfron, Ffair Rhos SY25 6BS. 01974 831221 (Ysgrifennydd)

Tegwen Jones, Blaenresgair, Tynreithyn, Tregaron SY25 6LS 01974 251269 (Trysorydd)

****************************************************************

**Annwyl Ddarllenwyr,**

A ydych wedi clywed am y cyfansoddwr 'Ioan Sebastian Bach'? Na finnau, ychwaith! Gwelais yr enw fel ateb mewn arholiad cerddoriaeth pan roeddwn yn athro ysgol, a dechreuais gasglu atebion difyr, doniol ac anesboniadwy eraill. Ffrwyth fy llafur yw llyfr electronig newydd o'r enw Cerddoniol!

Am £1.50/tua 95c gallwch lawrlwytho Cerddoniol! Am fwy o wybodaeth, ewch i Smashwords.com

Mwynhewch ac i fyny bo'r nodyn!

Dulais Rhys

# Sarn Helen

Mis diwethaf roedd ras ryngwladol Yr Wyddfa yn Llanberis, a Gethin Jones yn gorffen mewn awr 31 munud 12 eiliad, Simon Hall awr 40 munud 51 eiliad, Sian Roberts Jones awr 47 munud 12 eiliad, Aneurin Jones awr 49munud 21 eiliad, Caryl Davies awr 49 munud 24 eiliad, Gareth Jones 2 awr a 48 eiliad, Terrry Jones 2 awr 2 munud 33 eiliad,a Kevin Hughes 2 awr 2 munud 46 eiliad. Hefyd cystadlodd Beca Jones yn ras y plant dan ddeg oed ac ennill y wobr gyntaf.




Ras 5K gan Tenovus yn Llambed a Michael Davies yn ennill mewn 17:49, Gethin Jones 17: 54, Richard Marks 17:56. Mark Palmer 18:51, Huw Price 19:39, Glyn Price 19:54, Haydn Lloyd 20:36 a Steffan Jones 21:2.

Ar ôl tair cyfres o ras traeth Poppit dyma'r canlyniadau, 7fed Steffan Jones, 11 Helen Willoughby, 15 Dee Jolly 21 Simon Hall, 31 Haydn Lloyd, 43 Aneurin James, 54 Glyn Price, 57 Gethin Jones, 58 Michael Davies, 60 Terry Jones, 62 Huw Price, 68 Calvin Williams, 90 Sian Roberts-Jones, 132 Allen Watts.

Bu Richard Marks ac Ormond Williams yn cystadlu yn y 'British Master' ar drac, Marks yn ennill y fedal arian yn ras 5000 medr ac efydd yn y ras 1500 medr, a Williams yn 5ed yn y 100 a'r 200 medr, a 6ed – 400 medr a 7fed – 800 medr.

Pencampwriaeth Cymru ar drac Castell-Nedd Caitlin Page yn gorffen yn bumed yn ras 3000 medr mewn 11:35:07, a Grace Page yn bedwerydd yn ras agroed 800 medr 3:02:73. Ras rhedeg mynydd i blant iau yn Llanberis Caitlin Page yn drydydd mewn 18munud 42 eiliad.

Cystadlodd Caryl Davies yn ras fynydd Glyndwr ym Machynlleth gan orffen yn yr ail safle yn ras y merched, ac hefyd yn cipio'r ail wobr menywod agored yn 10K Abergwaun a Allen Watts awr 47 munud.


Ras Myddfai 8 milltir, Michael Davies yn gyntaf, ail Simon Hall, pumed Haydn Lloyd, chweched Helen Willoughby, wythfed Aneurin James a nawfed Gareth Jones.

Cwrs gwlyb a mwd oedd i ras Becca dydd Sadwrn gŵyl banc Awst, ac Andrew Abbot yn gorffen mewn 40:06, Glyn Price 40:59, Calvin William 46:50, Haydn Lloyd 48:58, Huw Price 49:31, Aneurin Jones 51:24 a Gareth Jones 53:34. Dydd Sul aeth rhai o'r rhedwyr i ras 10K St. Clears Llewelyn Lloyd 39:57, Haydn Lloyd 46:14, Steffan Jones 49:08 a Allen Watts 1awr 35. Ac bu Caitlin a Grace Page yn cystadlu ar trac Abertawe Caitlin yn ennill y ras 800 medr dan 15 a Grace yn wythfed yn y 800 medr dan 11 oed.

# Dyfarniad y Darllenydd

Dyfarniad y Darllenydd

Braf yw dathlu cyhoeddiadau Cymraeg gan awduron lleol. Dros yr haf, bu dewis da o lyfrau Cymraeg newydd ar werth.




**Bwydo'r Bobol gan Stuart Lloyd**

Hanes busnes sglodion a physgod Lloyds, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan yw prif gynnwys y llyfr hwn. Cawn ddilyn ymfudwyr tramor fel Iddewon ac, yn arbennig Eidalwyr a ddaeth â busnesau pysgod a sglodion i wledydd Prydain yn y lle cyntaf. Yn wir, Eidalwr wnaeth sefydlu'r caffi cyntaf o'i fath yn nhref Llanbed, ond ers trigain a phump o flynyddoedd bu'r busnes llewyrchus hwn ym meddiant Lloyds. Adrodda Stuart Lloyd ei hanes personol. Mae'n talu teyrnged i ddygnwch a chefnogaeth ei deulu. Ceir pennod hefyd ar hanes busnesau'r dref a seliwyd ar draethawd a gyhoeddwyd gyntaf ym Mhapur Bro Clonc gan y diweddar Maldwyn Hughes.

Mae darllenwyr Clonc yn cofio Alun Lloyd. Ef oedd yr arloeswr, cyn-drapiwr cwningod a drodd at fyd arlwyo a sefydlu siop sglogion yn y dref. Pan benderfynodd ymddeol yn 1987, llanwyd ei sgidiau gan ei fab hynaf, Stuart a roddodd y gorau i'w yrfa fel athro i barhau'r busnes a'r traddodiad.

Yn y busnes arlwyo, pysgod a sglodion yw'r ddarparaieth fwyaf traddodiadol sy'n bod. Ond fel unrhyw fusnes arall, ni all fforddio aros yn ddigyfnewid. Pan adawodd Stuart Lloyd ei waith fel athro i olynu ei dad, y peth cyntaf a wnaeth oedd ehangu'r bwyty a'i ddiweddaru. Talodd y weledigaeth ar unwaith drwy i'r busnes ennill teitl bwyty pysgod a sglodion gorau Cymru. Mae'r llwyddiant yn parhau ac yn cynyddu. Beth yw cyfrinach y llwyddiant hwnnw? Gwaith caled, menter a gwasanaeth da.

Ond a wna'r busnes oroesi i'r drydedd genhedlaeth? Yr ateb yw nad oes neb yn rhyw siwr iawn. Beth bynnag am hynny, mae i'r fenter orffennol – a phresennol – tra llwyddiannus. Dyma ei hanes, stori sydd mor flasus â'r prydau a weinir yno.

Cynhaliwyd lansiad y gyfrol yn Siop Tships Lloyds, Llanbedr Pont Steffan, pan gafwyd Sesiwn Arwyddo, pryd o sglodion a pherfformiad gan Gôr Cwmann. Mae'r llyfr a gyhoeddir gan Wasg Carreg Gwalch ac a olygwyd gan Lyn Ebenezer ar werth am £5.00.




**Dirgelwch Pentre Ifan gan Gareth James**

Cyffro, hwyl ac antur yng nghwmni Glyn, Jac, Deian a Rhodri wrth iddyn nhw aros yng ngwersyll yr Urdd, Pentre Ifan, Sir Benfro sydd yma. Hwn yw'r pedwerydd teitl yn y gyfres gan Gareth James ac yn ddilyniant i Dirgelwch Gwersyll Glan-llyn, Dirgelwch Gwersyll Caerdydd a Dirgelwch Gwersyll Llangrannog.

'Beth ar wyneb y ddaear 'ych chi'n meddwl chi'n neud 'ma? Mae'n ganol nos! Dewch mla'n atebwch fi, NAWR!'

Mae'n wyliau haf a'r criw ffrindiau heb weld ei gilydd ers dros bythefnos. Ond daw galwad ffôn i newid popeth a chyn bo hir mae'r pedwar ar eu ffordd i Sir Benfro am benwythnos mewn campyr-fan liwgar. Â Phentre Ifan a Chastell Henllys yn denu, ddylai cadw allan o drwbwl ddim bod yn ormod o broblem i'r criw y tro hwn. Ond wrth iddyn nhw ddechrau dod o hyd i un arteffact Celtaidd ar ôl y llall, mae'r ysfa am antur yn ormod....

Yn wreiddiol o Gwmann, mae Gareth James yr awdur bellach wedi ymgartrefu yn Aberystwyth. Mynychodd Ysgol Gynradd Coedmor ac Ysgol Gyfun Llanbed cyn ennill gradd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2001. Tra'n fyfyriwr yn Aberystwyth, ymddiddorodd mewn barddoniaeth ac yn y cynganeddion yn arbennig gan ennill Cadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llŷn ac Eifionydd yn 1998.

Bellach mae'n Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Mae hefyd yn weithgar gyda'r Urdd a bu'n Llywydd y mudiad rhwng 2007 a 2008.

Yn rhan o Gyfes Cawdel gan Wasg Gomer, mae'r llyfr ar werth am £4.99. Dylai apelio yn fawr at ddarllenwyr ifanc o gwmpas 10 i 12 oed.




**Bore Da gan Gwennan Evans**

Nofel llawn hiwmor gan nofelydd newydd lleol sydd hefyd yn llais adnabyddus ar Radio Cymru - Gwennan Evans. Mae Bore Da yn dilyn hanes Alaw Mai sydd wedi gweithio'n ddiflino ar raglen radio foreol Richie ar PAWB FM. Ond, un bore, daw ei chyfle mawr. Nofel addas i'r arddegau hwyr (14+) ac i oedolion. Nofel yng nghyfres y Dderwen gan Wasg y Lolfa ar werth am £5.95.

"Roedd ysgrifennu am orsaf radio ddychmygol yn cynnig nifer o sefyllfaoedd doniol," meddai Gwennan Evans, sydd i'w chlywed yn darllen y traffig a'r tywydd ar BBC Radio Cymru. "Yn enwedig wrth i Alaw Mai, y prif gymeriad, ddyheu am ei chyfle i serennu."

Dyma nofel gyntaf yr awdures ifanc o Ffarmers, ac nid yw'n wyneb anghyfarwydd yn y byd llenyddol serch hynny. Enillodd Gwennan Ysgoloriaeth Emyr Feddyg ym 2010 a daeth yn ail yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod yr Urdd 2010, ac fe'i clywir yn barddoni mewn nifer o dalyrnau ar hyd y wlad. Mae'n aelod o dîm beirdd y Ffoaduriaid. Mae ganddi M.A. yn y Gymraeg, ac mi fydd hi'n dechrau ar ei PhD mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Abertawe fis Medi, fydd yn ei galluogi i barhau i roi pin ar bapur.

"Mae ysgrifennu nofel wedi bod yn uchelgais gen i erioed," eglurai Gwennan, "ac roeddwn am gyhoeddi nofel ysgafn a bywiog y byddwn yn mwynhau ei darllen fy hunan." Er bod Bore Da yn addas ar gyfer arddegwyr aeddfed, mi fydd yr ysgrifennu yn profi'n atyniadol i bawb sydd yn chwilio am chwerthin rhwng cloriau eu nofel nesaf.

Yn ôl Meinir Wyn Edwards, y golygydd, "Mae gan Gwennan Evans ddawn gynhenid o greu stori dda. Mae'n ysgrifennu'n aeddfed, yn llawn dychan ac mae wedi creu cymeriadau cofiadwy yn y nofel ysgafn hon. Bydd Fat Cat, Richie, Alaw a Tony Mahoney yn aros yn y cof am sbel! Gan fod Gwennan yn gweithio ym myd radio, mae wedi medru creu sefyllfaoedd real iawn o fyd y cyfryngau, ac wedi creu stori o gwmpas y byd gwaith. Ond cawn hefyd gipolwg ar fywyd preifat Alaw Mai a'i chydweithwyr. Fedrwch chi ond dychmygu beth sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig!"

Mae Alaw Mai wedi cael llond bol o weithio fel cynhyrchydd ar raglen foreol Pawb FM. A hithau wedi rhoi pymtheg mlynedd o wasanaeth i Richie Edwards ar Bore Da, Rich, mae Alaw bellach yn bored 'da Rich.

Mae bywyd yn rhy fyr i gael ei bwlio gan y cyflwynydd hunanbwysig, ac i drafod gwau a chryd cymalau gyda'r gwrandawyr. Mae angen newid cyfeiriad arni, ac yn fwy na dim, mae angen dyn!

Ar ôl rhaglen waeth na'r arfer, mae'n penderfynu cyflwyno ei llythyr ymddiswyddo i Catrin "Fat Cat" Rowlands - pennaeth yr orsaf. Ond dyw'r gath dew ddim am wneud pethau'n hawdd i Alaw ac mae hithau hefyd yn chwilio am ddyn arall i wneud iddi ganu grwndi.

Nofel sy'n llawn hiwmor crafog, cymeriadau bywiog a stori sy'n symyd yn gyflym o un tro trwstan i'r llall.

**Cystadleuaeth**

Mae gan Clonc gopi o lyfr newydd Stuart Lloyd "Bwydo'r Bobol" fel gwobr i un enillydd lwcus. Atebwch y cwestiwn canlynol a danfon yr ateb gydag enw a chyfeiriad at Clonc, Tycerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET erbyn y 24ain Medi. "Beth oedd enw sylfaenydd Siop Sglodion Lloyds, Llanbed?"

# Melinau Gwynt

Mae rhai o drigolion plwyfi Llanllwni a Llanfihangel ar Arth yn cael cynnig £4 yr wythnos oddi ar eu biliau trydan gan gwmni datblygu ffermydd gwynt RES. Mae'n iawndal am yr annifyrwch a fydd yn rhan annatod o'u bywydau os caiff cynllun Bryn Llywelyn ei gymeradwyo - taliad am hyd at 25 mlynedd. Manteisiodd Grŵp Achub Mynydd Llanllwni ar gyfle dros yr haf i grynhoi tystiolaeth am union effaith melinau gwynt ar gymunedau sydd eisoes yn ceisio byw yn eu cysgod. Dywed y rheini sy'n byw gerllaw melinau gwynt bod gwerth eu tai wedi gostwng £25,000 ar gyfartaledd. Pan fydd yr haul y tu ôl i lafnau'r felin wynt, teflir cysgodion sy'n ymdebygu i fflachiadau grymus. Ac mae'r rheini'n treiddio drwy'r llenni trymaf. Mae rhai yn dweud bod byrddau sgertin eu cartrefi, eu drysau a'u ffenestri'n crynu. Mae llafnau'r melinau gwynt yn cynhyrchu sŵn tebyg i chwrnu rhyw wenynen boenus wrth iddyn nhw droi. Ac mae'r sŵn hwnnw'n amrywio yn ei ddwyster.

Ac mae rhai o drigolion Llanllwni a New Inn yn cael cynnig £4 yr wythnos, pris peint o gwrw, ond iddynt dderbyn yr amodau hyn yn ddirwgnach. Bydd RES, gyda llaw, yn pocedu o leiaf £200,000 yr wythnos.

Ac i gau: bydd derbyn taliad RES yn brawf o ddiddordeb ariannol yn y fferm wynt. O ganlyniad collir pob hawl i gwyno am effaith llygredd sŵn. Tybed fyddan nhw'n dal i wenu dros beint wedyn.

# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed




Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod wedi mwynhau gwyliau hir yr haf ac wedi ymweld ag ambell i sioe leol neu'r traeth o bosib. Ydych chi'n barod i fynd nôl i'r ysgol i weld eich ffrindiau i gyd? Efallai bod rhai ohonoch wedi cael llwyddiant mewn ambell i sioe neu eisteddfod wrth dynnu lluniau ac ati. Da iawn chi.

Bu nifer fawr ohonoch yn brysur iawn yn lliwio lluniau arbennig ar fy nghyfer i dros y gwyliau hefyd ac mae clod mawr yn mynd y tro hwn i Elain Williams o Lanybydder ac i Lowri Hanna Jones a Rhys Jones o Lanarth am luniau arbennig o dda. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Wil Hockenhull, Tŷ Pendraw, Tregaron. Llongyfarchiadau mawr i bawb a chofiwch fynd ati i liwio llun fy ffrindiau bach sy'n mynd i'r ysgol am y tro cyntaf y mis hwn. Cofiwch ei ddanfon ataf yn brydlon erbyn 20fed o Fedi.

Hwyl am y tro,




Enillydd y mis!


Wil Hockenhull



Enw: Oed:

Cyfeiriad:

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne




**Traean a Deuparth**

Yn ddiweddar derbyniais anrheg o Feibl a fu'n eiddo, ar un adeg, i'm hen famgu. Roedd hi'n enedigol o Traian, Maes-yr-odyn, Llanfihangel Glyn Myfyr. Nodir ar y dudalen flaen:

"Rhodd Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn Llanfihangel Glyn Myfyr, Sir Ddinbych, Gogledd Cymru i Anne Jones (Traian) ar ei hymadawiad i'r America. Mawrth 13eg 1887".

Ganed Anne Eleanor Roberts Jones ar 20 Medi 1859; gweld enw ei chartref, sef Traian, a ysgogodd y nodyn hwn.

Mae Traean, ynghyd â'r ffurfiau amrywiol Traian a Trayan yn digwydd yn aml fel enw lle neu fel elfen mewn enw lle. Gall ddynodi un o dri rhaniad ardal weinyddol. Er enghraifft, ar un adeg roedd plwyf, Llywel, Sir Frycheiniog, wedi ei rannu'n dair rhan, sef Traean-glas, Traean-mawr ac Is-Clydach (neu, o bosibl, Ynys Clydach). Yn Sir Gaerfyrddin roedd Traean Clinton (1450), sef trydedd rhan hen farwniaeth Sanclêr, ym mhlwyfi Cilymaenllwyd, Henllanfallteg a Llangynin; Traean Morgan a Thraean March oedd enwau'r ddau draean arall. Yn Swydd y Waun roedd pedair rhaniad i gwmwd Nanheudwy sef Is Clawdd a thri thraean sef Treaean Trefor, Traean Llangollen a Thraean y Glyn (sef Glyn Ceiriog). Roedd Arglwyddiaeth Croesoswallt yn yr oesoedd canol wedi ei rhannu'n ddau raniad sef Traean (un rhan o dair) a darn mwy, sef y Deuparth (dwy ran o dair). Yng nghofnodion swyddogol yr arglwyddiaeth honno aeth Deuparth yn Deuxparts. Yn Sir Faesyfed ceid Traean-y-mynech sef y rhan o blwyf Cwmteuddwr a fu unwaith yn eiddo i abaty Ystrad-fflur.

Gall 'traean', yn ogystal, ddynodi cyfran gwraig weddw o ystad ei gŵr am ei hoes. Roedd ewyllysiwr yn aml yn awyddus iawn i sicrhau bod ei wraig ac unrhyw blant ifanc yn ariannol ddiogel a chysurus yn dilyn marwolaeth y gŵr. Gellid gwneud trefniant adeg llunio cytundeb priodas: cytundeb lle y trefnid gwaddol ar gyfer y wraig, sef tiroedd neu incwm ar y cyd rhwng gŵr a gwraig, ac ar farwolaeth y gŵr byddai'r ystad yn troi i'r weddw yn unig. Yn aml byddai'r trefniant hwn yn cael ei gadarnhau yn yr ewyllys. Yr enw Saesneg ar y drefn gyfreithiol hon yw 'jointure'. Mae'n ymddangos mai dyma ystyr yr enw ar hen gartref ein teulu ni yn Llanfihangel Glyn Myfyr.

Mae'r cofnod cynharaf a welais am Traian, Llanfihangel Glyn Myfyr yn perthyn i'r flwyddyn 1727. Digwydd mewn cytundeb a wnaed rhwng John Thomas, rhydd-ddeiliad, Trayan, Llanfihangel Glyn Myfyr a Robert Myddelton, Castell y Waun a'i frawd John Myddelton.

Er mwyn rhoi ychydig rhagor o gig ar yr esgyrn sychion, gallaf nodi i Anne Eleanor Roberts Jones, yn 1889, briodi â'm hen dadcu David Davies (1858-1911) yn Seattle, UDA. Erbyn 1901 roedd David ac Anne Davies a'u plant Rhoda (1890-1973) a Lavina (1891-1986), ill dwy wedi'u geni yn Seattle, yn ôl yng Nghymru ac yn byw ym Mwthyn Glangwendraeth ym mhlwyf Llangyndeyrn, Sir Gaerfyrddin.

Diddordeb mewn datgloi cyfrinachau enwau lleoedd? Ar 6 Hydref eleni dewch i gynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn adeilad newydd Archifau Morgannwg yn Lecwydd, Caerdydd. Bydd yno groeso cynnes i bawb.

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn cyhoeddi cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn a allai fod at eich dant. Cewch fanylion ymaelodi a fydd yn sicrhau copi rhad i chi ar wefan y Gymdeithas: www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org


# O amgylch y Sioeau bach.....



Enillwyr Sioe Cwmsychpant yn derbyn eu Cwpannau gan lywydd y Sioe, Mrs Nancy Davies, Grugwen [Tyngrug Uchaf gynt].



Llywydd Sioe Gorsgoch Mr Dilwyn Thomas, Pantffynnon yn cyflwyno'r gwobrau i enillwyr yr amrywiol gystadlaethau yn y Sioe.



'Coffor Bach' a waned gan Huw Evans, Llanybydder oedd y gorau ymhlith holl gystadlaethau Sioe Llanybydder.


CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.




Teifi Concrete Llanwnen -Mandy Davies, Patrick O'Keeffe a Peter Davies yn derbyn cwpan y stand orau yn Sioe Llambed oddi wrth Maer a Maeres y dre Cyng Kistiah a Carole Ramaya.

# Llwyddiant Disgyblion y fro



Canlyniadau TGAU Ysgol Gyfun Llambed – llwyddodd pawb i gael 5A*/A. O'r chwith –rhes gyntaf: Claire Ruysch; Elinor Jones; 2il res: Llion Thomas; Kate Merrow Smith; Ellen Edwards; Lisa McCambridge; Edward Bransden; 3ydd rhes; Ella Bryden; Kiri Douglas; Ceri Jenkins; Sofia Gaetani Morris; Jo Jenkins; rhes gefn:- Steffan Roberts; Tomos Williams; Richard Davis; Ceri Cranfield; George Wagner; .



Llwyddiant ysgubol i'r canlynol o Ysgol Gyfun Llambed yn eu harholiadau Lefel A gyda phob un yn llwyddo i gael dros 800 o farciau.
Tu blaen: Adam King, 2ail res, Carwen Richards; Ruth Davies; Jade Berry; Savannah Davies, 3ydd rhes, Cerys Roberts, Lisa Thomas; Fflur Jones; Nicole Axten; Angelika Borkowska; Rhes gefn, Robert Fox; Ifan Rees; Daniel Edwardes; Tobiaz Lykowski; Jo McCambridge.

# Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen



**Unawd dan 6** [Cyf] 1. Elen Morgan, Drefach; 2. Megan Dafydd, Cwmann.
**Llefaru dan 6** [Cyf] 1. Elen Morgan, Drefach; 2. Megan Dafydd, Cwmann.




**Unawd 6 – 9** [Cyf] 1. Sioned Davies, Llanybydder; 2. Nia Eleri Morgans, Gorsgoch; 3. Nia Beca Jones, Blaencwrt; 4. Lois Mai Jones, Cwmsychpant.
**Llefaru 6 – 9** [Cyf] 1. Ffion Davies, Llanybydder; 2, Nia Beca Jones; 3. Sioned Davies; 4. Lois Mai Jones.




**Unawd 9 - 12** [Cyf] 1. Megan Mai Jones, Blaencwrt; 2. Elin Davies, Cwmsychpant; 3. Sara Elan Jones, Cwmann.
**Llefaru 9 – 12** [Cyf] 1. Sara Elan Jones, Cwmann; 2. Elin Davies, Cwmsychpant; 3. Megan Mai Jones, Blaencwrt.




**Unawd ar unrhyw offeryn cerdd dan 12 oed** [Cyf] 1. Elin Davies; 2. Megan Mai Jones; 3. Sioned Davies; 4. Sara Elan Jones; 5. Nia Beca Jones.



**Canu Emyn dan 12** [Cyf] 1. Sara Elan Jones; 2. Megan Mai Jones; 3. Nia Beca Jones; 4. Nia Eleri Morgans.



Dwy chwaer Nia Beca a Megan Mai Jones, Blaencwrt, Llanwnen yn ennill y ddeuawd dan 12 oed (cyfyngedig); Hefyd y ddeuawd dan 21oed (agored); Megan Mai yn ennill yr unawd 9-12 oed (cyfyngedig). Cyflwynwyd y “Rose Bowl” i’r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr adran gerddorol i’r ddwy ohonynt.



Hedydd ac Aron Davies, Silian yn ennill ar y ddeuawd emyn agored.



Parti Unsain Agored 1. Adran yr Urdd Llambed.